
# ADRODDIAD ANSAWDD DŴR '25




SURFERS AGAINST SEWAGE

CYHOEDDWYD EBRILL 2025

# RHAGAIR

## "MAE EIN SYSTEM DDŴR WEDI TORRI"

Mae'n ddatganiad syml, sy'n cyfleu gwirionedd hanfodol, er ei fod wedi cymryd amser hir iddo gydio.

Ond nawr mae wedi cydio, a gyda mwy na naw o bob 10 o'n cefnogwyr yn cytuno bod angen i'r diwydiant dŵr gael ei drawsnewid yn llwyr – ac yn radical – mae newid ar y gorwel.

Rydyn ni'n fudiad o Ymgyrchwyr y Cefnfor, wedi'n huno oherwydd ein cariad at ddŵr. Rydyn ni'n rhannu'r awydd i drochi ein hunain a chysylltu â natur wrth i ni syrffio, nofio, dipio a phadlo. Yn warthus, mae ein harfordiroedd, ein hafonydd a'n llynnoedd yn cael eu dinistrio o flaen ein llygaid, gan yr union gwmnïau rydyn ni'n eu talu i'w cadw'n lân, ac mae pob un ohonom mewn perygl o fynd yn sâl – o ddifrif efallai – drwy wneud y gweithgareddau rydyn ni'n eu caru. Mae Adroddiad Ansawdd Dŵr eleni yn tynnu sylw at hyn.

**AR DRAWS Y DU, ROEDD BRON I 600,000 O OLLYNGIADAU CARTHION WEDI'U CADARNHAU Y LLYNEDD, ER BOD Y GWIR FFIGUR YN DEBYGOL O FOD YN NES AT 1 MILIWN.**

Ond nid yw rhifau o'r fath yn adrodd y stori'n llawn. Cymunedau ac unigolion sy'n defnyddio'r dŵr sy'n dioddef canlyniadau methiant systemig. Suzi Finlayson, mam i ddau o blant, a aeth yn ddifrifol wael ar ôl datblygu haint gwaed drwy nofio mewn dŵr llygredig, neu Charlie Clarke a syrthiodd ac a ruthrwyd i'r ysbyty ar ôl iddo ddal feirws wrth ymarfer ar gyfer Ironman.

Mae methiant system ddŵr y DU yn cael effaith uniongyrchol ddychrynllyd ar filoedd o bobl fel Suzi a Charlie, yn ogystal â difetha'r amgylchedd naturiol i bawb.

Yn Lloegr, mae'r ffocws di-baid ar greu elw wedi arwain at gwmnïau dŵr yn casglu dyledion gwerth biliynau o bunnoedd ond yn methu â buddsoddi. Ond yn hytrach na chael eu dal i gyfrif, mae eu cyfranddalwyr yn cael taliadau enfawr tra bo biliau cwsmeriaid yn codi i'r entrychion. Yng Nghymru, mae llygredd eang yn cael ei anwybyddu, ac yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae'r llywodraethau'n fodlon ysgubo'r broblem dan y carped. Efallai fod achosion y llygredd rheolaidd hwn ar draws gwledydd y DU yn edrych yn wahanol, ond maent i gyd yn elfennau o fethiant systemig gan y diwydiant dŵr i roi blaenoriaeth i iechyd pobl a'r blaned.

Eleni, mae gennym gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i sbarduno newid dwfn a hirhoedlog yn y sector dŵr yng Nghymru a Lloegr. Ar gefn yr Etholiad Cyffredinol a'r don gynyddol o ddicter cyhoeddus, fe wnaethom lobïo'n galed am adolygiad o'r diwydiant dŵr – a'i ennill. Mae Comisiwn Annibynnol yn gwrando ar dystiolaeth yn awr a bydd yn gwneud argymhellion i Lywodraeth y DU ar gyfer dyfodol y sector. Ac yn y gweinyddiaethau datganoledig, gydag etholiadau'n cael eu cynnal yn 2026 a 2027, rhaid i bleidiau o bob lliw deimlo'r pwysau i fod o ddifrif am roi terfyn ar lygredd carthion.









**MAE'R AMSER AR GYFER CHWARAE O GWMPAS YMYLON SYSTEM SYDD WEDI TORRI WEDI DOD I BEN. MAE ARNOM ANGEN DIWYGIADAU TRAWSNEWIDIOL SY'N DOD Â LLYGREDD ER ELW I BEN AC SY'N ARWAIN AT SYSTEM DEG A THRYLOYW – UN SY'N RHOI BLAENORIAETH I ADFER YR AMGYLCHEDD, DIOGELU IECHYD Y CYHOEDD A GWERTH I GWSMERIAID.**



Archbŵer ein mudiad yw ein cymuned. Mae egni, creadigrwydd ac angerdd unigolion a grwpiau ledled y DU yn creu tonnau, gan ein gyrru tuag at y newid systemig y mae angen i ni ei weld ar frys. Wrth i ni gyflwyno ein gofynion, gyda thystiolaeth glir yn gefn iddynt, i'r Comisiwn Annibynnol, bydd negeseuon gan bobl o bob cwr o'r DU yn egluro pam fod y frwydr hon yn bersonol. Ac ar 17 Mai, bydd y niferoedd uchaf erioed ohonom yn padlo allan mewn protest.

### BYDDWN YN CADW'R PWYSAU ARNYNT.

Mae'n rhaid i'r cwmnïau dŵr, y rheoleiddwyr a Llywodraeth y DU wybod na fyddwn yn rhoi'r gorau iddi. Byddwn yn rhoi terfyn ar lygredd carthion.

Gyda'n gilydd, er mwyn y môr,
Giles




# CYNNWYS


**01** RHAGAIR t2-3

**02** CYFLWYNIAD t6-9

**03** CIPOLWG AR GARTHION t10-23

**04** ADDEWIDION WEDI'U TORRI, SYSTEM WEDI TORRI t24-31

**05** ARIAN BUDR t32-39

**06** CARTHION FFIAIDD t40-51

**07** MEDDWL O'R NEWYDD t52-53

**08** CYMRYD CAMAU t54-55

**09** ATODIADAU t56-59

## O'R ORIAU MWYAF ERIOED O OLLYNGIADAU CARTHION I ARGYFWNG IECHYD Y CYHOEDD, O ADDEWIDION WEDI'U TORRI I LYGREDD ER MWYN GWNEUD ELW... **MAE ADRODDIAD ANSAWDD DŴR ELENI YN TYNNU SYLW AT LITANI O FETHIANNAU SYSTEMIG.**

Does dim digon o ffidlan a fydd yn datrys y broblem hon. **Mae'n amser am drawsnewid radicalaidd, hanfodol...**

SYRFFWYR YN ERBYN CARTHION ◎ ADRODDIAD ANSAWDD DŴR '25



# O ROI BYWYD I GIPIO ELW: CYFLWR EIN DYFROEDD GWYLLT

Rydym yn caru dyfroedd gwyllt y DU. Maen nhw'n ein bywiogi ac yn ein hadfywio, p'un a ydyn ni'n hoffi nofio, syrffio neu sblasio ynddyn nhw, gofalu am y bywyd gwyllt y maent yn gartref iddo neu ddim ond yn dibynnu arnyn nhw er ein hiechyd a'n lles.

Mae ein diwydiant dŵr sydd wedi torri'n sylfaenol yn difetha'r mannau hyn sydd mor bwysig i bob un ohonom. Bob dydd, mae ymddygiad gwenwynig busnesau mawr a'r llywodraeth yn cael effaith drychinebus ar iechyd pobl a'r blaned. Diolch i'w difaterwch, eu diffyg gweithredu a'u gorelwa, mae arfordiroedd, afonydd a llynnoedd y gwledydd mewn cyflwr cywilyddus.

### Addewidion wedi'u torri, llygredd er elw ac etifeddiaeth o wadu

Mae cwmnïau dŵr sydd wedi'u preifateiddio yn Lloegr yn canolbwyntio gymaint ar sicrhau enillion ariannol tymor byr fel eu bod wedi methu'n barhaus â buddsoddi'r arian sydd ei angen i uwchraddio neu hyd yn oed gynnal a chadw eu seilwaith.

Dros y 35 mlynedd diwethaf maen nhw wedi cronni biliynau o bunnoedd mewn dyled, nid i gyflawni eu haddewidion a'u targedau i wella ansawdd dŵr, ond talu £74.2 biliwn mewn difidendau i gyfranddalwyr sy'n awchu i wneud elw. Yng Nghymru, mae cwmnïau dŵr wedi llygru ar lefelau syfrdanol ac mae'r rheoleiddwyr wedi methu â dal llygrwyr i gyfrif. Yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, ceir polisi parhaus o wadu a gwrthod datgelu'r gwirionedd am faint llygredd carthion.

**MAE ARNOM ANGEN DIWYGIADAU TRAWSNEWIDIOL I'R DIWYDIANT SY'N DOD Â LLYGREDD ER ELW I BEN AC SY'N ARWAIN AT SYSTEM DEG A THRYLOYW – SYSTEM SY'N RHOI BLAENORIAETH I IECHYD Y CYHOEDD A GWERTH AM ARIAN CWSMERIAID AC SY'N DARPARU ARFORDIROEDD, AFONYDD A LLYNNOEDD IACH.**

### Mwy o le dympio na lle chwarae

Mae'r methiannau hyn yn cael effeithiau yn y byd go iawn. Ar draws y DU, roedd 592,478 o ollyngiadau wedi'u cadarnhau y llynedd am gyfanswm o 4,786,038 awr, ond mae'r ffigur gwirioneddol yn fwy tebygol o fod yn agosach at 994,499 o ollyngiadau. Mae hynny'n cyfateb i 113 bob awr, am flwyddyn gyfan.

Yn 2024 yn unig, cafodd Syrffwyr yn Erbyn Carthion 1,853 o Adroddiadau am Salwch. Mae hyn yn cyfateb i werth naw mlynedd o ddyddiau sâl gydag ergyd i gynhyrchiant yr economi o £493,200 – dim ond gan y rheini a oedd yn adrodd i ni. Gall achosion y llygredd rheolaidd hwn ar draws y DU amrywio, ond maen nhw i gyd yn ganlyniad i'r methiant systemig gan ddiwydiant dŵr y DU i wneud ei waith a chadw ein dyfroedd gwyllt yn lân ac yn ddiogel.

### Amser ar ben

Mae'r ateb yn glir. Mae arnom angen diwygiadau trawsnewidiol sy'n dod â llygredd er elw i ben ac sy'n arwain at system deg a thryloyw – system sy'n rhoi blaenoriaeth i iechyd y cyhoedd a gwerth am arian cwsmeriaid ac sy'n darparu arfordiroedd, afonydd a llynnoedd iach.

# GWELEDIGAETH NEWYDD AR GYFER DŴR GLÂN AC IACH

Mae pum egwyddor allweddol y mae'n rhaid i system newydd eu cynnwys i roi terfyn ar Lygredd Carthion.

### BLAENORIAETH GYFREITHIOL I DDIOGELU IECHYD Y CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD

Mae'r cwmnïau dŵr yn darparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol. Rhaid iddynt roi blaenoriaeth i ddiogelu a gwella iechyd y cyhoedd ac iechyd yr amgylchedd, yn hytrach na chreu elw neu enillion i gyfranddalwyr.

### PENDERFYNIADAU DEMOCRATAIDD

Dylid gwneud penderfyniadau ynghylch sut mae dŵr yn cael ei reoli ar lefel ranbarthol a lleol gyda mewnbwn gan randdeiliaid lleol, gan gynnwys defnyddwyr dŵr, cwsmeriaid, awdurdodau lleol, grwpiau amgylcheddol a pheirianwyr. Yn hollbwysig, rhaid i'r rhanddeiliaid hyn gael pŵer gwirioneddol i wneud penderfyniadau.

### TRYLOYWDER

Rhaid i gwmnïau dŵr ddatgelu'r gwirionedd am eu gweithrediadau ar draws y busnes a rhoi gwybodaeth gyson a hawdd ei deall i'r cyhoedd er mwyn diogelu iechyd defnyddwyr dŵr.

Dylid cael tryloywder llwyr o ran y cyllid a'r gwobrau sy'n cael eu talu gan gwmnïau dŵr i sicrhau nad oes unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r busnes yn gallu elwa o lygredd.

### RHEOLEIDDWYR ANNIBYNNOL LLYM

Mae gan bob rheoleiddiwr ddyletswydd gyfreithiol i ddiogelu iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd.

Rhaid i reoleiddwyr orfodi'r gyfraith a dal llygrwyr i gyfrif. Yn benodol, atal gollyngiadau anghyfreithlon y tu allan i amgylchiadau eithriadol.

Rhaid iddynt roi terfyn ar lygredd er mwyn gwneud elw drwy stopio pob math o wobr ariannol i gwmnïau dŵr, cyfranddalwyr a chredydwyr sy'n torri'r gyfraith ac sy'n cyflawni perfformiad amgylcheddol gwael yn gyson. Rhaid iddynt fod yn annibynnol ac yn meddu ar ddigon o adnoddau i wneud y gwaith monitro, gorfodi ac erlyn a fydd yn sicrhau cydymffurfiad cyfreithiol llawn a gwelliant dramatig i'r amgylchedd.

### GWERTH AM ARIAN

Mae'n rhaid i gwsmeriaid gael yr hyn maen nhw'n talu amdano. Rhaid i system newydd gael ei rheoleiddio i ddenu buddsoddiad y mae mawr ei angen gan fenthycwyr hirdymor risg isel sy'n buddsoddi dros amser ac yn cael eu talu'n ôl pan fydd prosiectau'n cael eu cyflawni.

Dylid rhoi blaenoriaeth i fuddsoddi mewn atebion arloesol ac effeithiol sy'n seiliedig ar natur ar raddfa dalgylch er mwyn helpu i fynd i'r afael ag achosion llygredd carthion a sicrhau cyd-fanteision cost-effeithiol ar gyfer bioamrywiaeth a'r hinsawdd.Rhaid i reoleiddwyr sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon a bod dyledion yn cael eu rheoli'n gynaliadwy.



SYRFFWYR YN ERBYN CARTHION ADRODDIAD ANSAWDD DŴR '25






# CARTHION CIPOLWG

Mae llygredd carthion yn mygu ein harfordiroedd, ein hafonydd a'n llynnoedd. Yn 2024, roedd drewdod camreolaeth y diwydiant dŵr yn waeth nag erioed.

**592,478 O OLLYNGIADAU CARTHION HEB EU TRIN WEDI'U CADARNHAU AR DRAWS Y DU YN PARA AM GYFANSWM O 4,786,038 O ORIAU!**




A phan fyddwn ni'n ychwanegu ffigurau rhagamcanol o'r twll du data yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban, rydyn ni'n disgwyl i'r ffigur go iawn fod yn debycach i **994,499 O OLLYNGIADAU!**

**FFIGWR 1**

**Cyfanswm gollyngiadau carthion fesul gwlad yn y DU yn 2024**








**FFIGWR 2**

**Cyfanswm yr oriau gollwng a gollyngiadau carthion blynyddol 2020 - 2024[1]**




## GOLLYNGIADAU YN 2025


Yn ogystal â'r ffigurau adrodd blynyddol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth, mae cwmnïau dŵr hefyd wedi bod yn darparu rhywfaint o ddata byw ar ollyngiadau. Rydyn ni wedi bod yn olrhain y wybodaeth hon ac yn ei chofnodi ar SAS DATA HQ wrth iddo ddod i mewn[2]. A does dim modd gwadu'r dystiolaeth: dydy'r llygredd rhemp ddim yn mynd i unman. Dros ddau fis cyntaf 2025, digwyddodd cyfanswm anhygoel o **95,141 O OLLYNGIADAU.**

Er bod y ffordd mae gollyngiadau'n cael eu cyfrif mewn data byw yn wahanol i'r dull a ddefnyddir mewn adroddiadau blynyddol, mae ein dadansoddiad yn dangos ein bod yn wynebu blwyddyn arall sy'n drwm ar garthffosiaeth.




**Archwilio mwy yn Data HQ**

Archwilio ansawdd dŵr yn fanylach ar ein Data HQ i weld beth sy'n digwydd ar hyn o bryd gyda ein map carthion byw.




**FFIGWR 3**

**Gollyngiadau carthion fesul cwmni dŵr yn ystod mis Ionawr a mis Chwefror 2025**

# LLOEGR


## YR UN BAW, DIWRNOD ARALL

Er gwaethaf cyfreithiau newydd, mae'r llanw carthion ledled Lloegr yn dal yn ystyfnig o uchel. Ac mae pob cwmni dŵr â baw ar ei ddwylo.

Mae cwmnïau dŵr yn Lloegr wedi beio'r canlyniad cywilyddus hwn ar dywydd eithriadol, ond yr ydym yn anghytuno. Mae'r darparwyr hynny wedi cael rhybudd ers degawdau i baratoi ar gyfer newidiadau i'n hinsawdd. Eu hymateb? Nesaf peth i ddim.

**YN HYTRACH, RYDYN NI'N CAEL EIN GADAEL I WYLIO'R LLEFYDD RYDYN NI'N CARU NOFIO, SYRFFIO A CHWARAE YNDDYNT YN CAEL EU DIFETHA GAN LYGREDD.**

**FFIGWR 4** Cyfanswm yr oriau a'r gollyngiadau carthion blynyddol yn Lloegr rhwng 2020 a 2024




## GWELEDIGAETH NEWYDD: BETH SYDD ANGEN DIGWYDD NESAF

Mae defnyddwyr dŵr a'r amgylchedd yn talu'r pris am gwmnïau dŵr sy'n elwa o lygredd. Mae arnom angen diwygiadau trawsnewidiol sy'n dod â llygredd am elw i ben ac sy'n arwain at system deg a thryloyw.

**RYDYN NI'N MYNNU:**
**GWELEDIGAETH NEWYDD**

Mae angen i ddull newydd o roi terfyn ar lygredd carthion gael ei fframio o amgylch ein pum egwyddor allweddol ar gyfer dŵr glân ac iach (gweler t8).






03

**FFIGWR 5**

**Lleoliadau yn Lloegr yr effeithiwyd arnynt gan ollyngiadau carthion yn 2024**

**Allwedd map**

- Yr 1% CSO gwaethaf gyda gollyngiadau yn 2024
- Y deg o ddyfroedd ymdrochi a gafodd eu heffeithio fwyaf yn 2024
- Man syrffio y mae carthion wedi effeithio arno yn 2024




**Y dyfroedd ymdrochi sydd wedi'u heffeithio fwyaf**

| # | Lleoliad | Gollyngiadau |
|---|---|---|
| 1 | Wallasey | 2,201 |
| 2 | Dart Estuary | 1,553 |
| 3 | Plymouth Hoe East | 1,511 |
| 4 | St Annes | 1,232 |
| 5 | Steamer Quay | 987 |
| 6 | Wolvercote Mill Stream | 866 |
| 7 | Spittal | 782 |
| 8 | Walney Sandy Gap | 774 |
| 9 | Allonby | 768 |
| 10 | Fleetwood | 745 |

**Mannau syrffio sydd wedi'u heffeithio**

| # | Lleoliad | Gollyngiadau |
|---|---|---|
| 1 | Scarborough North Bay | 296 |
| 2 | Sidmouth | 158 |
| 3 | Saltburn | 123 |
| 4 | Lynmouth | 91 |
| 5 | Gwithian Towans & Godrevy | 83 |
| 6 | Fistral | 73 |
| 7 | Trevaunance Cove | 72 |
| 8 | Woolacombe | 52 |
| 9 | Gorleston | 46 |

**DIM OND CIPLUN YW HWN... CLICIWCH YMA I WELD GOLLYNGIADAU CARTHION BYW AR DRAWS Y DU.**

# CYMRU. ANELU'N ISEL

MAE HYNNY YN FWY NA 110 O FLYNYDDOEDD O GARTHION!

Yn 2024, rhyddhaodd Dŵr Cymru garthion 118,276 o weithiau, am gyfanswm o **968,340 o oriau**.

Nid yw Dŵr Cymru yn cyhoeddi un cyfanswm cryno o ollyngiadau carthion. I roi darlun llawnach, rydym wedi cyfuno'r holl setiau data sydd ar gael, gan gynnwys data ar orlifoedd nas caniateir a gorlifau argyfwng.

**Dim ond mewn sefyllfaoedd prin, critigol, y dylai gorlifau argyfwng weithredu**, ond mae rhai yn gollwng ar hyn o bryd fel gorlifau stormydd rheolaidd. Mae gorlifau nas caniateir, ar y llaw arall, yn rhyddhau carthion heb y trwyddedau amgylcheddol priodol. Mae'r safleoedd hyn yn cael eu hadolygu a gellir eu symud i'r system drwyddedu neu eu dileu'n gyfan gwbl.

Mae ffigur 2024 ychydig yn is na 2023, sy'n ymddangos fel newyddion addawol. Ond pan fyddwch chi'n edrych ar nifer y gollyngiadau o bob gorlif, mae'r darlun yn llawer mwy digalon.

Roedd gollyngiadau Dŵr Cymru fesul gorlif wedi cyrraedd 47. Nod y cwmni yw lleihau'r gollyngiadau i 30 fesul gorlif erbyn 2030[3]. Y targed cyfartalog ar gyfer lleihau gollyngiadau yng Nghymru a Lloegr yw 21. **Mae eu diffyg uchelgais yn gwbl annerbyniol**.

## RHEOLEIDDIWR LLIPA

Mae gan Dŵr Cymru yr holl ddata sydd ei angen arno i ganfod llygredd a delio ag ef. Mae hefyd yn gwmni nid-er-elw heb unrhyw gyfranddalwyr, sy'n golygu y gall ailfuddsoddi arian yn ôl yn y system yn hytrach na phoeni am ddifidendau. Ac eto, mae Dŵr Cymru wedi bod yn gwaredu carthion ddydd ar ôl dydd heb unrhyw ganlyniadau.

Mae hyn oherwydd bod Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), rheoleiddiwr amgylcheddol a ddylai fod yn rhoi terfyn ar y llygredd hwn, yn **llanastr llwyr**.


Y llynedd, bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru setlo bil treth gwerth £19 miliwn yn dilyn ymchwiliad gan Gyllid a Thollau EM i'r modd yr oedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflogi contractwyr. Mae'r rheoleiddiwr yn awr yn gostwng costau er mwyn ceisio ad-dalu'r ddyled.

Mae 256 o swyddi yn y rheoleiddiwr wedi eu dileu eisoes ac mae nifer enfawr o swyddi gwag yn parhau heb eu llenwi. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru bellach yn gweithredu ar gyllideb gyfyngedig, ac yn rhagweld 12 mis caled. **A bydd defnyddwyr dŵr a'r amgylchedd yn talu'r pris.**[4]










**FFIGWR 6**

**Y deg lleoliad uchaf yng Nghymru yr effeithiwyd arnynt ar y Gwasanaeth Moroedd ac Afonydd Mwy Diogel yn 2024**

| # | Lleoliad | Gollyngiadau |
|---|---|---|
| 1 | Llanfairfechan ⚠ | 629 |
| 2 | Bae Abertawe | 493 |
| 3 | Afon Wysg | 468 |
| 4 | Llyn Padarn | 417 |
| 5 | Pen Morfa Llandudno | 353 |
| 6 | Llandanwg | 346 |
| 7 | Bae Whitmore, Ynys y Barri | 321 |
| 8 | Bae Jackson, Ynys y Barri | 291 |
| 9 | Afon Dyfrdwy, Heol Dyfrdwy Isaf | 277 |
| 10 | Pembre | 275 |

Y DIWRNOD GWAETHAF YNG NGHYMRU HYD YMA YN 2025 OEDD 23 CHWEFROR GYDA 1,595 AWR SYFRDANOL O OLLWNG CARTHION.

### Diwrnod arall, gollyngiad arall

Nid oedd un diwrnod ym mis Ionawr, mis Chwefror na mis Mawrth 2025 lle nad oedd Dŵr Cymru yn rhyddhau rhywle yng Nghymru.[5]

Rydym yn gweld hanes yn ailadrodd ei hun yn barod yng Nghymru. Yn ystod tri mis cyntaf 2025, **rydym eisoes wedi cofnodi 11,910 o ollyngiadau.**



**FFIGWR 7**

**Gollyngiadau carthion dyddiol yng Nghymru rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2025**

ASTUDIAETH ACHOS

# GWNEUD NI'N SÂL:
## GWYLIAU TEULU



**TRAETH GRONANT: GOGLEDD CYMRU**

Dylai gwyliau teulu olygu treulio amser da gyda'ch gilydd. Ac mae'n aml yn golygu cynilo pob ceiniog drwy waith caled. Ond gyda'r argyfwng carthion gwarthus heddiw, ni ellir trysori pob atgof.

Roedd profiad Alice mor drawmatig, dydy hi byth eisiau mynd ar wyliau ar y traeth byth eto. A diolch i'r salwch a achoswyd gan ddŵr, mae ei phlant yn teimlo'r un fath erbyn hyn. Mae'n annerbyniol bod llygrwyr yn gwneud i bobl sy'n caru'r dŵr ac sy'n gwerthfawrogi ei fanteision deimlo fel hyn.

"Roedden ni i gyd yn edrych ymlaen yn fawr at gael y seibiant hwn a phenderfynu mynd i nofio," meddai Alice. "Ar ôl y diwrnod allan ar y traeth, fe aethon ni'n ôl i'r garafán ac yn fuan iawn fe aethon ni'n eithaf sâl. Roedd y plant yn pesychu ac yn chwydu ac roedd fy asthma'n gwaethygu."

Roedd gan bawb yn y grŵp dymheredd uchel. Yn ôl gartref, rhoddodd y meddygon wrthfiotigau iddynt ar gyfer heintiau ar y frest, a rhoddwyd Alice ar steroidau ar gyfer ei asthma.

Ond dim ond yn ddiweddarach y daeth y diagnosis damniol llawn yn glir.

"Ar ôl hynny, fe wnes i ddarganfod bod carthion yn gollwng yn yr ardal roedden ni'n aros ynddi," meddai Alice. "Mae pob un ohonom yn teimlo trawma oherwydd y sefyllfa hon."

**"ROEDDEN NI'N NOFIO MEWN CARTHION POBL. MAE HYNNY WEDI ACHOSI I'N HIECHYD – YN FEDDYLIOL, YN EMOSIYNOL AC YN GORFFOROL – I DDIRYWIO."**

## GWELEDIGAETH NEWYDD: BETH SYDD ANGEN DIGWYDD NESAF

Mae arfordir, afonydd a llynnoedd Cymru wedi bod yn cael eu llygru ers gormod o amser. Ac mae'r holl system ar fai. Mae Dŵr Cymru wedi bod yn llygru'n rheolaidd, mae rheoleiddiwr anhrefnus wedi gadael iddynt wneud hynny ac mae'r Llywodraeth yn cysgu wrth y llyw. Mae'n amser am newid. Gydag etholiad yn prysur ddynesu, mae angen i wleidyddion yng Nghymru roi'r gorau i oedi a dechrau gweithredu i fynd i'r afael â'r system sydd wedi torri.

**RYDYN NI'N MYNNU: RHEOLEIDDIO SY'N GWEITHIO**

Rheoleiddiwr annibynnol llym yn angenrheidiol er mwyn gorfodi'r gyfraith a sicrhau bod gollyngiadau carthion **ond yn digwydd mewn amgylchiadau eithriadol**.







# GOGLEDD IWERDDON
## GWIRIONEDDAU CUDD, GWEITHREDU LLWGR


Yn 2024, cofnododd Northern Ireland Water 2,967 o ollyngiadau. Ac mae'n gwaethygu, yn gyflym. Yn syfrdanol, dim ond 122 o'r 2,806 o CSOs yn y wlad sy'n cael eu monitro. Dim ond 4.3% o'u rhwydwaith cyfan yw hynny.

Yn seiliedig ar nifer cyfartalog y gollyngiadau ar gyfer y 122 CSO y gwyddom amdanynt, gallai gwir nifer y gollyngiadau fod yn 61,732.[6] Mae maint gwirioneddol y llygredd ar draws Gogledd Iwerddon wedi cael ei guddio oddi wrthym gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon sydd nid yn unig yn cuddio eu pennau yn y tywod ond yn weithredol yn torri eu haddewidion eu hunain i weithredu.

**FFIGWR 8**

**Lleoliadau CSOs sy'n cael eu monitro a heb eu monitro yng Ngogledd Iwerddon**

- CSO yn cael ei fonitro
- CSO ddim yn cael ei fonitro
- Y dyfroedd ymdrochi sydd wedi'u heffeithio fwyaf



# SYLW I GARTHION

## BELFAST LOUGH: SGANDAL EPIG



Mae Belfast Lough yn rhedeg o brifddinas y genedl i fôr Iwerddon, ac mae'n ddarn o ddŵr gwerthfawr a phoblogaidd iawn.

O fannau ymdrochi fel Helen's Bay a Groomsport, sy'n cefnogi cymunedau nofio bach, i'r diwydiant pysgod cregyn ffyniannus, sy'n darparu swyddi hanfodol i'r ardal, mae hapusrwydd, lles a bywoliaeth miloedd o bobl yn dibynnu arno.

Er gwaethaf hyn i gyd, nid yn unig y mae carthion wedi cael eu pwmpio i'r afon am ddegawdau, ond mae cynllun i'w hachub newydd gael ei roi o'r neilltu gan Lywodraeth Gogledd Iwerddon, gan gondemnio'r dŵr yma i ddioddef y budreddi hwn am flynyddoedd i ddod.

**MAE LEFELAU'R BACTERIA MEWN MANNAU NOFIO POBLOGAIDD YN FWY NA THAIR GWAITH YN UWCH NA'R HYN A GANIATEIR AR GYFER DYFROEDD YMDROCHI – GAN ROI DEFNYDDWYR DŴR MEWN PERYGL ANNERBYNIOL.**

### Gwenwyno gan garthion

Yn 2024, roedd Northern Ireland Water wedi gollwng carthion i Belfast Lough 1,148 o weithiau, gan bara am gyfanswm o 3,967 awr. Mae 122 o orlifoedd wedi'u rhestru fel gollyngiadau i Belfast Lough , ond dim ond 36 (30%) sydd â monitro ar waith. Os yw'r 86 gorlif sy'n weddill, nad ydynt yn cael eu monitro, yn gollwng ar yr un gyfradd, gallai'r cyfanswm gwirioneddol fod yn tua 3,890 o ollyngiadau'r flwyddyn – mae hynny'n fwy na 10 gollyngiad bob un diwrnod. Mae'r swm cyfartalog fesul CSO ar gyfer gorlifau yng Ngogledd Iwerddon yn 22, ond i'r rheini o gwmpas Belfast Lough mae'n 45% yn uwch gyda chyfartaledd o 31.9.




FFIGWR 9

Lleoliadau gorlifau carthion yn Belfast Lough a'r ardal o'i gwmpas





03

### Llwybrau brown gweledol

Mae'r lefel enfawr o lygredd sy'n gorlifo i'r lough yn cael effaith ddifrifol. Mae lefelau'r bacteria mewn mannau nofio poblogaidd yn fwy na thair gwaith yn uwch na'r hyn a ganiateir ar gyfer dyfroedd ymdrochi – gan roi defnyddwyr dŵr mewn perygl annerbyniol o fod yn sâl.[7]

**"RYDYCH CHI'N GALLU GWELD Y LLWYBRAU BROWN GWELEDOL PRYD BYNNAG MAE GOLLYNGIAD WEDI DIGWYDD,"**

Dywedodd Helen Armstrong, aelod o Syrffwyr yn Erbyn Carthion, wrth y BBC y llynedd. "Hyd yn oed ar ddiwrnodau heulog da, rydw i wedi bod yn nofio, ac mae padiau glanweithiol wedi arnofio heibio i mi… Ni ddylem fod yn nofio mewn cachu."

Nid defnyddwyr dŵr yn unig sy'n teimlo effaith y diffyg buddsoddiad hwn. Mae hefyd yn cael effaith enfawr ar y gymdeithas ehangach. Mae diffyg seilwaith dŵr gwastraff yng Ngogledd Iwerddon yn arafu datblygiad a thwf economaidd ledled y rhanbarth, gan effeithio ar rai o'r rhai mwyaf anghenus.

Er gwaethaf ôl-groniad o 48,000 o aelwydydd sy'n aros am dai, mae'r diffyg seilwaith carthion yn golygu nad oes modd creu miloedd o dai cymdeithasol.[8]

### Geiriau dibwys yn unig

Yn 2015, bu i'r Llywodraeth yng Ngogledd Iwerddon gydnabod cyflwr Belfast Lough. Roedd y Rhaglen Byw gyda Dŵr i fod i yrru'r Adran Seilwaith, Rhanddeiliaid Lleol a Northern Ireland Water i gymryd camau a fyddai'n clirio'r lough, gan gynnwys buddsoddi mewn wyth prosiect carthffosiaeth mawr. Cymeradwywyd y cynllun hwn gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon a dyrannwyd yr arian gan y rheoleiddiwr. Roedd y gwaith o gynllunio'r seilwaith mawr hefyd yn mynd rhagddo'n briodol gyda thimau o beirianwyr ar ganol paratoi gwaith ar y prosiectau seilwaith mawr cyntaf.[9]

Fodd bynnag, ar ddechrau 2025, bu i'r Adran Seilwaith ohirio'r rhaglen ffurfiol gan gyfyngu ar y cyllid a fyddai'n cael ei ddyrannu i Northern Ireland Water. O ganlyniad, ni fydd y prosiectau seilwaith y mae dirfawr eu hangen a fyddai'n diogelu defnyddwyr dŵr, yr amgylchedd ac economi Gogledd Iwerddon yn cael eu cynnal mwyach. Yn eu lle, bydd cyllideb fechan yn rhoi plastr glynu dros system garthffosiaeth druenus o dan gapasiti, gan beidio â thrwsio dim.[10]

Mae hon yn sgandal epig. Mae Belfast Lough yn cael ei drin yn wael. Rhaid i lywodraethau ddyrannu'r cyllid sydd ei angen i sicrhau bod y lough yn lân ac yn ddiogel i'r bobl sy'n dibynnu arno i ffynnu.

### Defnyddwyr dŵr mewn perygl

Mae methu â chyflawni addewidion yn duedd gyfarwydd yn y System Ddŵr yng Ngogledd Iwerddon. Y wlad yw'r lle olaf yn y DU heb hysbysiadau carthion mewn amser real, sy'n golygu bod defnyddwyr dŵr yn peryglu eu hiechyd wrth fynd i mewn i'w morroedd, ei hafonydd a'i loughs.

Am y flwyddyn ddiwethaf, mae Syrffwyr yn Erbyn Carthion wedi bod yn ceisio ymgysylltu â Northern Ireland Water i'w helpu i gyflawni ei addewid i dreialu darparu rhybuddion am garthion amser real yn un o fannau syrffio gorau Gogledd Iwerddon, Portrush. Er bod 65 o ollyngiadau wedi bod yno eleni, dydyn ni ddim wedi cael dim byd ond distawrwydd llwyr.

**FELLY, DROS Y FLWYDDYN DDIWETHAF, MAE DEFNYDDWYR DŴR WEDI CAEL EU RHOI MEWN PERYGL HEB HYD YN OED WYBOD.**

Er bod Gogledd Iwerddon ar ei hôl hi o ran data llygredd o'i gymharu â gweddill y DU, roedd yn ymddangos bod Northern Ireland Water yn gwneud cynnydd o'r diwedd, gyda'i gynlluniau ar gyfer prosiectau seilwaith enfawr ac mae'n addo dechrau darparu gwybodaeth amser real. Mae'n ymddangos mai dim ond yn chwydu sbin yr oeddent.

ASTUDIAETH ACHOS

# GWNEUD NI'N SÂL:

## RUBY FREE, YMGYRCHYDD, SYRFFIWR, AWDUR



GOGLEDD IWERDDON

"Wedi'i sbarduno gan weithredu annigonol, buddsoddiad gwael a gwanhau rheoleiddio, rydym yn mynnu bod Northern Ireland Water, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn cymryd camau gweithredu ystyrlon eleni."

"Yng Ngogledd Iwerddon, nid yw un corff dŵr yn cyrraedd safon gemegol dda – gyda 12% o rywogaethau mewn perygl o ddiflannu yma, llawer ohonynt yn rhywogaethau morol a dŵr croyw, rhaid i hyn newid."

"Ond dydy ansawdd dŵr gwael ddim yn achosi niwed i fywyd gwyllt yn unig, mae'n effeithio arnon ni hefyd. Canfu samplau dŵr arbenigol fod lefelau bacteria mewn mannau nofio poblogaidd dros dair gwaith yn uwch na'r hyn a ganiateir ar gyfer dyfroedd ymdrochi. Rwyf i fy hun wedi bod yn ddifrifol wael ar ôl syrffio mewn mannau sy'n dueddol o ddioddef gollyngiadau carthion. Nid wyf yn gallu gweld data Monitro Hyd Digwyddiadau (EDM) byw ar yr ap Gwasanaeth Afonydd a Moroedd Mwy Diogel (SSRS) – oherwydd nad yw'r cwmnïau dŵr yn darparu'r data hwn. Mae'r rheini sydd i fod yn ein hamddiffyn yn ein hesgeuluso."

## GWELEDIGAETH NEWYDD: BETH SYDD ANGEN DIGWYDD

Mae arnom angen newid ac mae ei angen arnom yn awr. Mae Northern Ireland Water yn eiddo i Weithrediaeth Gogledd Iwerddon a threthdalwyr y wlad.

Mae'n bryd iddyn nhw gyflawni dros bobl Gogledd Iwerddon drwy gamu ymlaen gyda'n gweledigaeth newydd ar gyfer dŵr glân.

**RYDYN NI'N MYNNU:**
**Y GWIR**

Rhaid i Northern Ireland Water ddod yn dryloyw ynghylch graddfa'r llygredd ar draws y wlad a darparu rhybuddion am garthion amser real i gadw defnyddwyr dŵr yn ddiogel. Rhaid i Weithrediaeth Gogledd Iwerddon wrthdroi ei phenderfyniad i dorri'r Rhaglen Byw gyda Dŵr a chyflawni ei buddsoddiadau arfaethedig i ddiogelu defnyddwyr dŵr yn Belfast Lough ac o amgylch Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn golygu sicrhau'r buddsoddiad hirdymor sydd ei angen o gyllid cyhoeddus neu breifat i gyflawni'r prosiectau hyn.





03

# YR ALBAN
## STORI DRUENUS

Mae diwydiant dŵr yr Alban yn dangos nonsens afresymol a rhwystredig ein cwmnïau dŵr.

### Y llinell uchaf

Yn 2024, cofnododd Scottish Water 23,498 o ollyngiadau am gyfanswm o 208,377 awr, ond daw'r ffigyrau hyn o ddim ond 6.7% o'u rhwydwaith cyfan.


Yr Alban sydd â'r cyfraddau gollwng cyfartalog uchaf fesul CSO o unrhyw gwmni dŵr ar 89.3. Felly, gallai nifer gwirioneddol y gollyngiadau fod mor uchel â 364,629.

**MAE GWIR FAINT ARGYFWNG CARTHION YR ALBAN YN PARHAU I FOD YN GUDDIEDIG Y TU ÔL I WAL O DDATA COLL A RHEOLIADAU GWAN.**

### Y cipolwg cyntaf ar y gwirionedd

Ddiwedd 2024, roedd Scottish Water wedi cyhoeddi ei ddata gorlif carthion cyhoeddus cyntaf o'r diwedd. Roedd yn gam ymlaen, ond mae hynny wedi agor pennod arall yn y saga drist hon.

Mae Scottish Water yn cyfaddef bod ganddo tua 4,080 o orlifoedd. Ac eto, dim ond 1,116 sy'n ymddangos ar eu map gollyngiadau carthion. Mae hynny'n golygu eu bod wedi methu â riportio 73% o ollyngiadau mewn amser real, a allai fod wedi effeithio'n ddifrifol ar iechyd pobl.



FFIGWR 9

**Lleoliadau CSOs sy'n cael eu monitro a ddim yn cael eu monitro yn yr Alban**

CSO yn cael ei fonitro ●
CSO ddim yn cael ei fonitro ●

## 2025

Yn 2025, mae'r duedd yn edrych yn debyg. Ers 3 Chwefror, mae Syrffwyr yn Erbyn Carthion wedi bod yn cofnodi gollyngiadau Scottish Water mewn amser real. Gwelsom 1,535 o ollyngiadau mewn dim ond mis, gan effeithio ar yr arfordir, yr afonydd a'r llynnoedd ym mhob cwr o'r Alban.

**A DIM OND DATA AR 27% O'R GORLIFIADAU SYDD GENNYM. MAE'R DARLUN LLAWN YN DEBYGOL O FOD HYD YN OED YN FWY GWARTHUS.**

| # | Dyfrffordd yr effeithir arni | Gollyngiadau |
|---|---|---|
| 1 | Aber Forth ⚠ | 129 |
| 2 | Afon Clyde | 76 |
| 3 | Afon Tweed | 61 |
| 4 | Aber Clyde | 46 |
| 5 | Afon Dee | 43 |
| 6 | Afon Nith | 42 |
| 7 | Afon North Esk | 37 |
| 8 | Afon Leven | 33 |
| 9 | Loch Linnhe | 31 |
| 10 | Afon Tay | 27 |

ASTUDIAETH ACHOS

## GWNEUD NI'N SÂL: YN YR YSBYTY GYDA CRYPTOSPORIDIWM

BELHAVEN, DWYRAIN LOTHIAN



Ar ôl nofio i ddathlu pen-blwydd ffrind gyda'i chyd Salty Sisters, deffrodd Shelley Sim gyda phoenau yn y stumog a blinder. Dywedodd ei meddyg teulu wrthi fod hyn yn fater brys: roedd yn rhaid iddi fynd i'r ysbyty. Bu raid i Shelley aros am bum diwrnod oherwydd gastroenteritis difrifol a dadhydradu.

Ar ôl wythnosau o apwyntiadau diddiwedd, oriau o deithio i'r ysbyty, a hyd yn oed symud i uned clefydau heintus, cafodd Shelley ei diagnosio o'r diwedd â chrypostosporidiwm, clefyd y dolur rhydd a ddaliwyd drwy nofio mewn dŵr halogedig.

Tan hynny, roedd Shelley yn nofio bob dydd fel rhan o'i defod ddyddiol. Erbyn hyn, doedd hi ddim yn gallu mynd yn ôl i'r dŵr am naw wythnos gyfan.

"Dydw i ddim yn nofio bob dydd mwyach, ac rydw i'n fwy gofalus am fynd i mewn i'r dŵr," meddai Shelley wrthym ni. "I'r môr rwy'n mynd ar gyfer fy iechyd meddwl, er mwyn osgoi straen o fod yn ofalwr. Y peth cyntaf rydw i'n ei wneud nawr yw gwirio'r gollyngfeydd. Mae hynny'n dda, ond mae'n dod o le o ofn. Ni ddylwn fod yn gwneud hyn. Fe ddylwn i fod yn edrych ar y llanw, nid pryd oedd hi'n bwrw glaw yn drwm ac a oedd unrhyw ollyngiadau."

Ac nid Shelley oedd yr unig un yr effeithiwyd arni. Roedd ei chyd nofwyr, ei ffrindiau a'i theulu hefyd.

"Roedd wedi effeithio ar iechyd meddwl fy mab," meddai. "Mae ganddo OCD, ADHD ac awtistiaeth a fi yw ei ofalwr. Achosodd fy salwch lawer o boen meddwl a straen."



03

## CAU'R BWLCH: BETH RYDYN NI'N EI WYBOD NAWR AM SCOTTISH WATER


O'r data 2024 sydd ar gael, rydym wedi canfod bod defnyddwyr dŵr a'r amgylchedd yn dioddef cost Llygredd Scottish Water.

Yr ail fis uchaf o ollyngiadau yn yr Alban oedd mis Awst, pan mae'r mwyafrif helaeth o bobl yn defnyddio'r dŵr. Un o'r gorlifau oedd yn perfformiad waethaf oedd Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Perth a ollyngodd i Afon Tay 240 o weithiau yn 2024 am gyfanswm o 13,177 o oriau.

Yn 2024, ni chafwyd unrhyw rybuddion carthion amser real yn yr Alban. Yn hytrach, rhoddodd Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban (SEPA) 800 o hysbysiadau risg llygredd yn ystod y tymor ymdrochi – rhwng Mehefin a Medi yn yr Alban. Mae'r rhybuddion hyn yn rhybuddio defnyddwyr dŵr pan allai ansawdd y dŵr fod yn isel. Ond dim ond rhagfynegiadau yw'r rhain ac nid ydynt yn rhybuddio defnyddwyr dŵr pan fydd carthion wedi cael eu gollwng.

FFIGWR 10:

Lleoliadau Hysbysiadau PRF yr Alban yn ystod 2024



## GWELEDIGAETH NEWYDD: BETH SYDD ANGEN DIGWYDD NESAF

Gydag etholiad ar y gorwel yn 2026, mae'n rhaid i wleidyddion yn yr Alban fynd i'r afael â sgandal carthion yr Alban a **pheidio â phwyntio'r bys i rywle arall.**

**RYDYN NI'N MYNNU: TRYLOYWDER LLAWN**

Mae arnom angen monitro 100% ar ollyngiadau carthion yn yr Alban i gadw pobl yn ddiogel pan fyddant yn defnyddio'r dŵr. Mae angen i'r Llywodraeth roi blaenoriaeth i iechyd y cyhoedd ac iechyd yr amgylchedd, a rhoi terfyn ar lygredd carthion yn yr Alban erbyn 2030. Rhaid iddo ddal Scottish Water i gyfrif am gyflawni'r targedau y mae'n eu gosod.

# ADDEWIDION WEDI'U TORRI SYSTEM WEDI TORRI

Mae drewdod y sgandal carthion wedi dod yn rhan o'r newyddion prif ffrwd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda chwmnïau dŵr yn gwneud addewid ar ôl addewid i fuddsoddi mwy nag erioed o'r blaen a chyrraedd pob math o dargedau disglair. Ond allwn ni fyth eu credu nhw go iawn?

Mae cwmnïau dŵr yng Nghymru a Lloegr yn cael eu rheoleiddio gan nifer o gyrff, gan gynnwys Ofwat, sy'n goruchwylio eu cyllid a'u gweithrediadau. Bob pum mlynedd, mae'n rhaid i bob cwmni gyflwyno cynlluniau buddsoddi i Ofwat drwy broses o'r enw adolygiad prisiau (PR).

Mae cynlluniau PR yn dangos yr hyn y mae pob cwmni dŵr yn addo ei gyflawni, lefel y buddsoddiad sydd ei angen; a faint y bydd yn rhaid i gwsmeriaid ei dalu am filiau yn ystod y pum mlynedd y mae'r cynllun PR yn rhedeg.

Mewn system sy'n gweithio, mae hynny'n gwneud synnwyr llwyr. Ond mewn diwydiant sydd wedi torri, rydych chi'n dysgu peidio ag ymddiried mewn cwmnïau i gyflawni eu haddewidion. Neu'r rheoleiddiwr i'w dal i gyfrif.

**PAM MAE'R CYNIGION NEWYDD YN CAEL EU CROESAWU MOR FRWD, A'R HOLL ADDEWIDION HEB EU CYFLAWNI O'R CYNLLUN BLAENOROL YN DAL I FOD YN AMLWG?**

Yn 2025, daeth PR19 i ben, a dechreuodd PR24. Fe wnaethom fanteisio ar y cyfle i archwilio'r pum mlynedd diwethaf o PR19 (2020-2025), i weld a oedd cwmnïau dŵr yn agos at gyflawni'r hyn roeddent wedi'i addo.

### Asesu "arweinwyr y diwydiant"

Yn ei asesiad cychwynnol o gynlluniau PR19, nododd Ofwat dri chwmni a oedd yn sefyll allan: South West Water, Severn Trent ac United Utilities.

Yn ôl y rheoleiddiwr, roedd y tri hyn yn cynnig cynlluniau uchelgeisiol a oedd yn gosod safon newydd ar gyfer y sector dŵr. Felly, rhoddodd statws llwybr carlam iddynt. Yn gyfnewid am addo arloesi ar ganlyniadau cadarnhaol i gwsmeriaid ac i'r amgylchedd, roedd y cwmnïau hyn yn cael eu cydnabod fel arweinwyr y diwydiant; yn cael dechrau da ar gwmnïau eraill i ddechrau gweithio ar eu cynlluniau mawr, a miliynau mewn gwobrau ariannol.[11] Ond pa safon oedden nhw mewn gwirionedd yn ei gosod ar gyfer y diwydiant?









## MEWN DIWYDIANT SYDD WEDI TORRI, RYDYCH CHI'N DYSGU PEIDIO AG YMDDIRIED MEWN CWMNÏAU I GYFLAWNI EU HADDEWIDION

Cafodd South West Water (SWW) **wobr ariannol gwerth £6.7 miliwn** am ei Gynlluniau 2019.

Cafodd rhan o'r wobr hon ei dyrannu oherwydd bod SWW wedi addo cyflawni ei ganlyniadau arfaethedig sy'n arwain y sector, fel gwella ei sgôr amgylcheddol a lleihau rhwystrau mewn carthffosydd.

**TARGED: Lleihau digwyddiadau llygredd i 19.5 am bob 10,000 km o garthffosydd**

DISGWYLIR METHIANT

Addawodd SWW i leihau digwyddiadau llygredd i 19.5 o ddigwyddiadau[13] am bob 10,000 km o garthffosydd erbyn 2024-25.

Hyd yma, mae wedi methu'n druenus. Yn wir, rhwng 2022 a 2023, cododd digwyddiadau llygredd yn ei ardal 80%.Ni allwn gael gafael ar ddata swyddogol ar adroddiadau digwyddiadau llygredd tan fis Gorffennaf 2025, ond rydym wedi cael data heb ei wirio gan Asiantaeth yr Amgylchedd drwy gais Rhyddid Gwybodaeth.


## MAE'R DATA HWN YN DANGOS BOD 188 O DDIGWYDDIADAU LLYGREDD YN 2024.

Gan dybio bod hyd y rhwydwaith carthffosydd wedi aros yr un fath â'r flwyddyn flaenorol, mae hyn yn cyfateb i 107.8 o ddigwyddiadau llygredd am bob 10,000 km o bibell. Er y gallai'r nifer hwn newid ar ôl i'r ffigurau terfynol gael eu rhyddhau, mae ein hymchwiliad yn awgrymu bod South West Water ar y trywydd i fethu ei darged – gyda phum gwaith yn fwy o ddigwyddiadau llygredd nag yr oeddent yn anelu ato.

Fodd bynnag, rydyn ni wedi bod yn tyrchu i berfformiad SWW o ran llygredd carthion dros y pum mlynedd diwethaf ac nid ydynt yn edrych fel cwmni dŵr sy'n perfformio'n eithriadol.[12]

**FFIGWR 11:**

Nifer yr achosion o lygredd 2020-2024




**TARGED: Lleihau gollyngiadau gorlif i 20 y flwyddyn**

METHIANT

Ym mis Ebrill 2022, roedd Cynllun SWW ar gyfer Afonydd a Moroedd Iach[14] yn cynnwys addewid i leihau gollyngiadau gorlif storm i 20 y flwyddyn ar gyfartaledd erbyn 2025. Yn 2024, roedd eu gollyngiadau cyfartalog fesul gorlif yn 41.3, sy'n fwy na dwbl y targed. A dydy 2025 ddim yn edrych yn llawer gwell. Yn ôl ein data adrodd byw o Data HQ, roedd 21% o orlifoedd SWW wedi rhagori ar y targed blynyddol hwn erbyn mis Mawrth.

i Gwybodaeth a gafwyd drwy gais rhyddid gwybodaeth, nid yw wedi'i ddilysu gan Asiantaeth yr Amgylchedd ac mae'n agored i'w newid. Mae'n cynnwys gwybodaeth sector cyhoeddus sydd wedi'i thrwyddedu o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0

**FFIGWR 12:**

Sgoriau EPA SWW 2020-2024

| | | |
|---|---|---|
| 2020 | ★★☆☆ | Angen gwella |
| 2021 | ★☆☆☆ | Perfformio'n wael |
| 2022 | ★★☆☆ | Angen gwella |
| 2023 | ★★☆☆ | Angen gwella |
| 2024 | I'w gadarnhau | I'w gadarnhau |

**TARGED: Cyflawni perfformiad amgylcheddol 4 seren**

DISGWYLIR METHIANT

Yn ei gynlluniau PR19, roedd SWW yn brolio y byddai'n cael sgôr perfformiad amgylcheddol 4 seren, roedd hyn yn un o'r canlyniadau perfformiad allweddol y cyfeiriwyd atynt gan Ofwat fel y rheswm y byddai SWW yn cael gwobr ariannol. Erbyn 2023, yn ôl y ffigurau diweddaraf a oedd gennym ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd ond wedi lwyddo i gyrraedd 2 seren.

**TARGED: Cynnal safonau ansawdd dŵr ymdrochi rhagorol drwy gydol y flwyddyn**

METHIANT

Mae SWW yn datgan ei fod am gynnal "safonau ansawdd dŵr ymdrochi rhagorol drwy gydol y flwyddyn, er mwyn i bawb allu mwynhau ein 860 milltir o arfordir, ar ba bynnag adeg o'r flwyddyn".

## Y LLYNEDD, CYHOEDDWYD 3,168 O RYBUDDION CARTHION MEWN DYFROEDD YMDROCHI YN ARDAL SOUTH WEST WATER.

Cafodd yr hysbysiadau hyn eu cyflwyno drwy gydol y flwyddyn, gyda 541 o hysbysiadau'n cael eu rhoi yn ystod y tymor ymdrochi – rhwng mis Mai a mis Medi yn Lloegr – a 2,627 o rybuddion yn ystod gweddill y flwyddyn. Gyda llygredd mor ddi-baid, rydym yn amau'n fawr y bydd ansawdd y dŵr yn agos at fod yn rhagorol drwy gydol y flwyddyn.

## Dyfodol South West Water: llanw garw

Ar ôl pum mlynedd o fethu â chyrraedd y targedau gan SWW, mae Ofwat unwaith eto wedi rhoi gwobr i gyfres nesaf o gynlluniau SWW. Y tro hwn, mae'n werth swm sy'n cyfateb i £36 miliwn.

Bydd un o'r nodau hynny ar gyfer y 5 mlynedd nesaf yn gyfarwydd o'r tro diwethaf: "Bydd y cwmni'n gwella ei berfformiad amgylcheddol drwy gyflawni statws Asesiad o Berfformiad Amgylcheddol (EPA) 4* erbyn 2028."

Cyhoeddodd SWW hefyd ym mis Chwefror 2025 y bydd yn buddsoddi dros £700 miliwn i leihau gorlif stormydd ar draws y rhanbarth yn y cyfnod nesaf o bum mlynedd.

Y nod yw gwneud SWW y cwmni dŵr cyntaf i gyrraedd targed y Llywodraeth o gael llai na 10 gollyngiad y flwyddyn – 10 mlynedd syfrdanol cyn y terfyn amser.

**Mae gan SWW fynydd enfawr i'w ddringo.** Bu i 872 o'i orlifoedd carthion cyfun ollwng dros 10 gwaith yn 2024 (64% o gyfanswm eu gorlifiadau).

## AC OHERWYDD EI FOD WEDI METHU Â CHYRRAEDD TARGEDAU AMGYLCHEDDOL DRO AR ÔL TRO DROS Y PUM MLYNEDD DIWETHAF, SUT YDYN NI I FOD I YMDDIRIED YNDDYN NHW NAWR?


TARGED: Lleihau digwyddiadau llygredd i 19.5 fesul 10,000 km o garthffosydd erbyn 2024-25

DISGWYLIR METHIANT

UU oedd yr unig "arweinydd yn y diwydiant" a oedd yn ymddangos fel ei fod ar y trywydd iawn, ac arhosodd felly am nifer o flynyddoedd. Tan 2023, pan welodd nifer y digwyddiadau llygredd yn codi 71%, ac mae UU yn beio hynny ar flwyddyn eithriadol o wlyb a chynnydd mewn monitro. Ond yn anffodus, mae'n ymddangos bod y duedd hon ar i lawr yn parhau. Mae ymateb rhyddid gwybodaeth (FOI) gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn dangos bod digwyddiadau llygredd UU wedi cynyddu i 352 a bod gollyngiadau wedi cynyddu i 45 fesul 10,000km o bibellau yn 2024. Mae hynny'n llawer mwy na dwbl targed y cwmni.

FFIGWR 13:

Nifer yr achosion o lygredd 2020 –2024




Digwyddiadau llygredd fesul 10,000km o bibellau carthffosiaeth

Cyfanswm o achosion llygredd

## Dyfodol United Utilities: elw di-ben-draw

Dim ond dosbarthiad "safonol" y mae set nesaf cynlluniau UU yn er derbyn, sy'n golygu eu bod yn ddigonol yn gyffredinol ac yn bodloni'r disgwyliadau gofynnol, ond nid ydynt yn eithriadol. Beth bynnag am hynny, bydd y cwmni'n dal i dderbyn gwobr sy'n cyfateb i £16 miliwn a bydd ei gyfranddalwyr yn parhau i elwa ar y buddion, tra bydd ei gwsmeriaid yn dioddef.

Cafodd United Utilities (UU) **£24 miliwn** ar gyfer ei gynlluniau PR19, gan gynnwys trywydd pum mlynedd o ansawdd uchel a chynnig sy'n arwain y sector i wneud biliau'n fforddiadwy a darparu cymorth i gwsmeriaid agored i niwed.[15]

Maen nhw bron â chyrraedd targedau PR19 sydd wedi cael eu gosod i leihau niferoedd y gollyngiadau, ond yn anffodus maen nhw'n mynd i'r cyfeiriad anghywir ar gyfer digwyddiadau llygredd.

TARGED: Lleihau gollyngiadau gorlif 33%

METHIANT*

*ond dim ond o drwch blewyn

Ar ei drywydd at Iechyd Afonydd Gwell, addawodd UU y byddai'n lleihau gollyngiadau gorlif stormydd 33% o leiaf rhwng 2020 a 2025. Ac yn 2024, bu bron iddyn nhw â chyrraedd y targed hwn drwy leihau gollyngiadau 32%.

Ond cyn i ni ddathlu'n ormodol, roedd gollyngiadau UU yn 2020 yr uchaf o blith unrhyw gwmni dŵr yn Lloegr y degawd hwn, o bell ffordd. Roedd yn gyfrifol am ryddhau 113,940 o weithiau, bron i ddwywaith gymaint â'i gystadleuydd agosaf, sef Yorkshire Water, a ollyngodd 65,083.

Talodd UU tua £320 miliwn i fuddsoddwyr yn 2023-24, ac yna cyhoeddodd y byddai'n **cynyddu ei difidendau yn unol â chwyddiant**, tra bydd cwsmeriaid UU yn talu 32% yn fwy mewn biliau.[16]

i Gwybodaeth a gafwyd drwy gais rhyddid gwybodaeth, nid yw wedi'i ddilysu gan Asiantaeth yr Amgylchedd ac mae'n agored i'w newid. Mae'n cynnwys gwybodaeth sector cyhoeddus sydd wedi'i thrwyddedu o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0







Cafodd Severn Trent (ST) wobr gwerth **£18 miliwn** gan y rheoleiddiwr am ei gynllun a oedd yn cynnwys nifer o gynigion uchelgeisiol, arloesol sy'n arwain y sector i wneud biliau'n fforddiadwy a darparu cymorth i gwsmeriaid agored i niwed.

Ond o ran delio â llygredd, mae ST wedi **methu cyrraedd ei dargedau** bob blwyddyn hyd yma.[17]

TARGED: Lleihau gollyngiadau gorlif i 20 y flwyddyn

METHIANT

Yn ei ddogfen Get River Positive, dywedodd ST nad ei weithrediadau fydd y rheswm dros afonydd afiach erbyn 2030. Er mwyn cyrraedd y nod hwnnw, dywedodd y byddai'n gweithio i leihau achosion o orlifoedd storm i 20 y flwyddyn ar gyfartaledd erbyn 2025.[18]

Mae wedi methu'r targed hwnnw hefyd.

Mae data 2024 y cwmni'n dangos mai 25.4 o ollyngiadau fesul CSO ar gyfartaledd oedd y ffigwr. Mae cyfanswm o 1,118 o orlifoedd wedi gollwng dros 20 o weithiau yn 2024, gyda'r pum safle sy'n perfformio waethaf yn cynrychioli 1,014 o ollyngiadau rhyngddynt.


TARGED: Lleihau digwyddiadau llygredd i 19.5 fesul 10,000 km o garthffosydd erbyn 2024-25

DISGWYLIR METHIANT

Yn ôl y data diweddaraf, mae ST wedi methu cyrraedd y targed hwn bob blwyddyn hyd yma, ac mae'n ymddangos nad yw 2024 yn ddim gwahanol, gyda digwyddiadau llygredd yn dal ar gynnydd.

FFIGWR 14:

Nifer yr achosion o lygredd 2020 –2024




Digwyddiadau llygredd fesul 10,000km o bibellau carthffosiaeth

Cyfanswm o achosion llygredd

Ar ben hynny, mae dadansoddiad o orlifoedd sy'n arllwys drwy'r NSOH[19] yn dangos bod 1,313 o orlifau'n weithredol ym mis Ionawr a mis Chwefror 2025, gyda 60 eisoes wedi gollwng fwy na 20 o weithiau[19]

Un o'r safleoedd sy'n perfformio waethaf gan ST yw gorlif Snarestone, a gofnododd 168 o ollyngiadau sy'n dod i gyfanswm o dros 1,000 o oriau yn ystod dim ond dau fis cyntaf 2025. Yn 2024, rhyddhaodd Gwaith Trin Carthion Snarestone i Afon Mease 208 o weithiau, gan gronni'r swm anhygoel o 3,780 o oriau.

## Dyfodol Severn Trent

Er gwaethaf methu targedau allweddol yn ei gynllun PR19, mae Severn Trent yn dal wedi cael gwobr enfawr gan Ofwat – sy'n cyfateb i £93 miliwn – am ei gynlluniau PR24 "eithriadol".

## LLE MAE ARWEINWYR YN METHU


Mae ein "arweinwyr diwydiant" honedig yn methu cyflawni eu haddewidion. Ydy'r gweddill yn gwneud yn well? Dywedodd Ofwat, "ymrwymodd y sector i leihau cyfanswm y digwyddiadau llygredd 30% yn ystod cyfnod 2020-25."[20] Mae ein dadansoddiad o ddata Rhyddid Gwybodaeth gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn dangos bod cwmnïau dŵr yn Lloegr, ym mha bynnag ffordd y gwnewch chi'r mathemateg, wedi methu â gwireddu'r addewid hwn gyda'i gilydd.

Mae achosion o lygredd fesul 10,000km o bibellau wedi cynyddu 23% rhwng 2020 a dechrau 2025. Ac mae cyfanswm y digwyddiadau llygredd wedi cynyddu 45%.

Nid yn unig y mae cwmnïau dŵr yn Lloegr wedi methu â chyflawni eu haddewidion eu hunain, maent wedi methu â chyflawni'r targed a osodwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd i leihau cyfanswm y digwyddiadau llygredd 40% o lefelau 2016 rhwng 2020-2025. Gydag digwyddiadau llygredd yn 2024 i fyny 30% ar lefelau 2016.[21]

**FFIGWR 15:**

**Canran y newid yng nghyfanswm y digwyddiadau llygredd a digwyddiadau llygredd fesul 10,000km 2020-24**




### LLE MAE'R ARIAN YN MYND?

Edrychwch yn fanylach ar bethau y tu ôl i'r diwydiant dŵr a byddwch yn gweld mwy a mwy o enghreifftiau o gwmnïau'n methu â chyflawni eu hymrwymiadau. Gan fynd yn ôl i gylch buddsoddi 2015-2020, roedd cwmnïau dŵr a charthffosiaeth mewn gwirionedd yn tanwario 5% ar eu cyfleusterau dŵr gwastraff o'i gymharu â'r gwariant a addawyd.[22]

Rhwng 2020 a 2022, tanwariodd wyth cwmni eu cyllideb ar gyfer gwella eu rhwydwaith dŵr gwastraff. Gwariodd Yorkshire Water dim ond 20% o'r gyllideb a neilltuwyd ar gyfer gwelliannau i'r gwaith trin carthion; dim ond 39% a wariwyd gan South West Water. Mae angen gwelliannau cyflymach arnom, nid arafach.

Mae oedi neu danddarparu yn golygu system wedi torri sy'n dal i wneud cam â'r bobl y mae i fod i'w gwasanaethu, a llygredd carthion yn parhau i ddinistrio arfordir, afonydd a llynnoedd y DU ar y gyfradd ddychrynllyd a welwn heddiw.

**RHODDODD THAMES WATER £474 MILIWN O'R NEILLTU AR GYFER GWELLIANNAU AMGYLCHEDDOL. BUM MLYNEDD YN DDIWEDDARACH, MAE'N CAEL EI YMCHWILIO AM FETHU Â CHYFLAWNI'R CYNLLUNIAU HYN, Y MAE CWSMERIAID WEDI TALU AMDANYNT YN BAROD.**







## SUT ALLWN NI YMDDIRIED YNDDYN NHW?







Gofynnir i ni gredu y bydd y pum mlynedd nesaf yn yn wahanol...

Y bydd yr un cwmnïau hynny, fydd yn cael eu goruchwylio gan yr un rheoleiddwyr, yn cymryd yr holl fuddsoddiad hwnnw ac yn ei ddefnyddio i gyflawni eu targedau y tro hwn.

**Dydyn ni ddim yn credu hynny.**







### GWELEDIGAETH NEWYDD: BETH SYDD ANGEN DIGWYDD

Mae angen diwygiadau trawsnewidiol i'r sector. Mae'r cwmnïau dŵr yn taflu llwch i'n llygaid, gan addo y byddan nhw'n newid ond yn cyflawni'r nesaf peth i ddim. Ac mae ein rheoleiddwyr yn aros yn llonydd tra bo'r un patrymau'n ailadrodd eu hunain dro ar ôl tro.

**RYDYN NI'N MYNNU:**
**RHEOLEIDDIO ANNIBYNNOL LLYM**

Dylai fod gan reoleiddwyr ddyletswydd gyfreithiol glir i ddiogelu iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd fel eu bod yn gwneud penderfyniadau er budd y cyhoedd. Rhaid iddynt gael eu grymuso i herio a chosbi'r cwmnïau dŵr pan fyddant yn methu mor druenus – yn hytrach na'u gwobrwyo am wneud hynny.

# ARIAN BUDR
## ARIAN YN DRECH

Mae cwmnïau dŵr yn llygru ein harfordiroedd a'n hafonydd a'n llynnoedd fel mater o drefn, ac er gwaethaf biliau cynyddol, maent yn methu'n gyson â chyflawni eu haddewidion. Pam? Oherwydd yn Lloegr maen nhw'n cael ei gyrru'n ddidostur gan elw, gan flaenoriaethu taliadau i gyfranddalwyr, ar draul buddsoddi.

Yn 1989, preifateiddiwyd y diwydiant dŵr yng Nghymru a Lloegr a dilëwyd ei ddyled, mewn ymgais i ddenu buddsoddiad yr oedd mae mawr ei angen.

Sawl degawd yn ddiweddarach, mae cwmnïau dŵr wedi cronni £69.2 biliwn mewn dyled ac wedi talu £74.2 biliwn i gyfranddalwyr.

Mae ymchwil ddiweddar wedi dangos, dros ddegawdau, bod cyfranddalwyr wedi cymryd mwy o arian allan o'r diwydiant dŵr nag y maent wedi'i roi i mewn.

Pan breifateiddiwyd y diwydiant, chwistrellodd cyfranddalwyr newydd £3.6 biliwn, sy'n cyfateb i £8.2 biliwn ym mhrisiau 2023. Fodd bynnag, ym mis Mawrth 2023 dim ond £3.4 biliwn oedd y swm roedd cyfranddalwyr yn ei fuddsoddi mewn cwmnïau dŵr. Mewn termau real, mae hyn yn golygu bod y cyfranddalwyr wedi tynnu £4.8 biliwn allan, sef bron i 60% o gyfalaf y cyfranddalwyr gwreiddiol.[23]

**A BETH SYDD GENNYM I'W DDANGOS AM HYN? 450,398 O OLLYNGIADAU CARTHION I DDYFROEDD GWYLLT LLOEGR, YN 2024 YN UNIG.**







## GWARIO ARIAN FEL DŴR: CANFOD Y GOLLYNGIADAU


| CWMNI | DIFIDENDAU (2023-2024) | DIFIDENDAU (1990-2023) |
|---|---|---|
| Severn Trent | £301.4m | £12.1bn |
| Thames Water | £195.8m | £10.6bn |
| United Utilities | £320m | £13bn |
| Northumbrian Water | £108m | £4.2bn |
| Yorkshire Water | £84.1m | £7.7bn |
| Anglian Water | £79.9m | £12.7bn |
| Wessex Water | £66.5m | £4.3bn |
| South West Water | £45m | £4.6bn |
| Southern Water | 0 | £2.3bn |
| Dŵr Cymru | 0 | £2.7bn |
| Cyfanswm | £1.2 bn | £74.2 bn |

SYRFFWYR YN ERBYN CARTHION ADRODDIAD ANSAWDD DŴR '25



# I BLE MAE'N MYND?

Yn 2024, roedd cyfranddalwyr cwmnïau dŵr wedi parhau i dynnu arian o'r system, gyda difidendau sy'n dod i gyfanswm £1.2 biliwn – a llawer ohono wedi gadael diwydiant dŵr y DU yn gyfan gwbl.




**FFIGWR 16:**

**Lleoliadau cyfranddalwyr mwyaf cwmnïau dŵr a'r swm a dalwyd iddynt mewn difidendau yn 2024. Gweler yr atodiad am fanylion llawn.**

# ARIAN I LAWR Y DRAEN

Mae'r Llywodraeth yn awgrymu y gallai gostio hyd at £63 biliwn i ddelio â'r achosion gwaethaf o lygredd carthion yn y DU (er bod ffyrdd o wneud hynny am lawer llai), ond mae'r swm hwnnw'n is o lawer na'r swm gwarthus o £74.2 biliwn a dalwyd i gyfranddalwyr yn ystod y degawdau diwethaf.[24]

Pe bai'r arian hwnnw wedi cael ei ailfuddsoddi i gynnal ac uwchraddio'r rhwydwaith dŵr presennol, byddai wedi atal miliynau o litrau o garthion amrwd rhag dod i'n harfordiroedd, ein hafonydd a'n llynnoedd.

**DYLAI'R ARIAN SY'N CAEL EI BOCEDU GAN FANCWYR BUDDSODDI A RHEOLWYR CRONFEYDD RHAGFANTOLI FOD WEDI CAEL EI FUDDSODDI'N ÔL YN Y SYSTEM DD R ER BUDD POBL A'R BLANED.**

Mae Twnnel Thames Tideway[25], a gwblhawyd yn ddiweddar – carthffos enfawr sydd wedi'i dylunio i fynd i'r afael â llygredd – wedi costio £5 biliwn i'w hadeiladu. Yn ôl Thames Water, gall y system newydd leihau gollyngiadau carthion i afon Tafwys tua 95%, gan ddal yn ôl bron i 640 o byllau nofio Olympaidd o garthion a dŵr storm ar unrhyw un adeg.

Gallai £74.2 biliwn fod wedi adeiladu 14.8 yn fwy o 'garthffosydd mawr' fel Twnnel Thames Tideway ac atal tua 9,544 o byllau nofio Olympaidd o garthion a dŵr storm rhag mynd i mewn i'n harfordiroedd, ein hafonydd a'n llynnoedd ar unrhyw un adeg.

### Natur sy'n gwybod orau

Mae seilwaith 'llwyd' – fel carthffosydd mawr – yn cael ei ffafrio gan gwmnïau dŵr, ond gallai buddsoddi mewn atebion 'gwyrdd' ar raddfa dalgylch neu atebion sy'n seiliedig ar natur sicrhau canlyniadau hyd yn oed gwell.

Mae'r dull hwn yn cael ei fabwysiadu ar draws y byd am gyfran fach o gost prosiectau peirianneg enfawr, gan gynyddu bioamrywiaeth a chydnerthedd yn wyneb newid yn yr hinsawdd ar yr un pryd.

Er enghraifft, mae rhaglen Green City, Clean Waters yn Philadelphia yn lleihau faint o ddŵr storm sy'n mynd i garthffosydd cyfun gan ddefnyddio seilwaith gwyrdd, tra'n ehangu capasiti trin dŵr storm gyda gwelliannau seilwaith traddodiadol.[26]

**£5BN**
**COST UN 'CARTHFFOS FAWR'**

**£74.2 BN**
**DIFIDENDAU CYFRANDDALWYR 1990-2023**

**GALLAI DIFIDENDAU CYFRANDDALWYR FOD WEDI CAEL EU GWARIO YN ADEILADU 14.8 O 'GARTHFFOSYDD MAWR' YCHWANEGOL**



### Pam mae hyn yn digwydd? Peryglon meddwl yn y tymor byr

Mae Cwmnïau Dŵr yn Lloegr yn cael eu gyrru gan yr angen i gyflawni elw tymor byr i gyfranddalwyr, gydag ystyriaethau amgylcheddol yn ôl-ystyriaeth yn unig.

Mae hyn wedi dod yn arbennig o amlwg dros y blynyddoedd diwethaf, wrth i'r math o gyfranddaliwr sy'n buddsoddi mewn cwmnïau dŵr newid. Mae buddsoddwyr sy'n ceisio gwobrau risg isel, sefydlog a chynaliadwy – lle mae cadw'r ddarpariaeth ar y trywydd iawn yn hanfodol i sicrhau elw tymor hir – wedi cael eu disodli gan y rheini sy'n chwilio am enillion tymor byr.


**AR ÔL GWNEUD ELW CYFLYM, GALL CYFRANDDALWYR ADAEL – GAN ADAEL I'R CWMNÏAU YSGWYDDO'R DDYLED A GODWYD GANDDYNT I GYFLAWNI EU DIFIDENDAU.**

Mae'r cyfranddalwyr hyn yn pwyso am fwy o ddifidendau, yn gyflymach. Mae cwmnïau dŵr yn mynd i ddyled i wneud taliadau iddynt, ac yna, ar ôl gwneud elw cyflym, gall cyfranddalwyr adael – gan adael i'r cwmnïau ysgwyddo'r ddyled a godwyd ganddynt i gyflawni eu difidendau.

### Yr Ymhonwyr ym Macquarie

Y prif ddihiryn o ran yr ymddygiad hwn yw Macquarie Asset Management, cyfranddaliwr mwyaf Thames Water ers degawd. Am bump o'r blynyddoedd hynny, roedd y difidend yn fwy na'r elw yr oedd Thames Water yn ei wneud. O ganlyniad, roedd dyled y cwmni wedi cynyddu bedair gwaith yn fwy, o £2.5 biliwn i dros £10 biliwn.[27] Ond yn hytrach na sbarduno'r Llywodraeth ac Ofwat i ymchwilio i'r difrod yr oedd hyn yn ei wneud i'n diwydiant dŵr, **caniatawyd i Macquire symud ymlaen**. Daeth yn berchennog mwyafrifol yn Southern Water yn lle hynny.





# CWSMERIAID YN TALU'R PRIS

Ac nid Thames Water yn unig. Mae dyledion cynyddol, biliau'n codi, a ffrydiau llygredd yn broblem i holl gwmnïau dŵr Lloegr.

Yn 2024, roedd cwmnïau dŵr ar y cyfan yn talu difidendau ar gyfartaledd o 11% o gyfanswm eu refeniw. Talodd Severn Trent ddifidendau gwerth 215% o'r elw ar ôl treth. Talodd Yorkshire Water ddifidendau gwerth 124% o'r elw ar ôl treth.

Ar ben hynny, roedd cwmnïau nad oeddent hyd yn oed yn broffidiol hefyd yn rhannu'r arian, gyda pherchnogion South West Water yn gwneud colled, ond eto'n dal i dalu miliynau i gyfranddalwyr.

Mae gan gwmnïau dŵr ddigon o arian o filiau cwsmeriaid i ddarparu eu gwasanaeth ac i ariannu'r buddsoddiad lleiaf posibl yn y system ddŵr.[28]

Mae'n darparu ar gyfer archwaethau cyfranddalwyr sy'n awchu am elw a difidendau sydd wedi eu harwain at fenthyca – a chael trafferth ad-dalu – symiau enfawr o arian.[29]

Mae hyn yn cael effaith enfawr ar gwsmeriaid. Mae dadansoddiad gan arbenigwyr blaenllaw wedi dangos, yn 2023-24, bod gan y 10 cwmni dŵr refeniw o bron i £14 biliwn, ond wedi talu £3.7 biliwn ar gostau cyllid a dros £1 biliwn ar ddifidendau. Mae hyn yn golygu ar gyfartaledd bod 35c ym mhob punt o filiau cwsmeriaid yn cael ei ddefnyddio i dalu dyledion ac ariannu difidendau yn hytrach na thrwsio'r system garthffosiaeth sydd wedi torri.[30]

**YN 2023, AR GYFARTALEDD ROEDD 35C YM MHOB PUNT O FILIAU CWSMERIAID YN CAEL EI DDEFNYDDIO I DALU DYLEDION AC ARIANNU DIFIDENDAU YN HYTRACH NA THRWSIO'R SYSTEM GARTHFFOSIAETH SYDD WEDI TORRI.**

Mae disgwyl i'r bil dŵr cyfartalog godi 36% erbyn 2030.[31] Bydd y cwsmer cyffredin yn talu £160 yn fwy mewn biliau yn 2030 nag yr oedd yn ei dalu yn 2024.[32]

Ac mae cwmnïau dŵr yn ceisio camarwain cwsmeriaid am yr hyn sy'n digwydd ac i ble mae'r cynnydd yn y bil yn mynd. Yn 2024, honnodd Thames Water mai dim ond 3% o filiau cwsmeriaid a aeth i dalu benthycwyr yn ôl. Yn wir, roedd cwsmer arferol Thames Water yn talu 28% o'u bil i fynd i'r afael â dyled £18 biliwn y cwmni.[33] Nid yw ymdrechion i droi'r llanw wedi arwain i unman. Mae symiau enfawr o garthion yn dal i lygru ein dyfroedd. Ac mae cwmnïau dŵr yn dal i fethu â chyflawni eu haddewidion.

Mae ymyriadau sydd â bwriad da hyd yn oed wedi methu, oherwydd bod y cymhellion yn anghywir, gan flaenoriaethu elw i gyfranddalwyr ar draul yr atebion sydd eu hangen ar frys.

**OS BYDD PETHAU'N PARHAU FEL HYN, BYDD HANES YN PARHAU I AILADRODD EI HUN. BYDDWN YN PARHAU I LIFO I LAWR TWLL O DDYLED, TRA BYDD LLIFEIRIANT O OLLYNGIADAU YN HALOGI EIN MOROEDD.**






## GWELEDIGAETH NEWYDD: BETH SYDD ANGEN DIGWYDD NESAF

**Gallwn newid pethau, os ydyn ni'n newid y ffordd mae ein system yn cael ei rhedeg.** Ar draws y byd, y norm yw rheoli dŵr ar lefel leol drwy gymysgedd o berchnogaeth gyhoeddus, preifat a di-elw yn hytrach na'r model perchnogaeth breifat 100% yn Lloegr.



### RYDYN NI'N MYNNU: AILOSOD YN LLWYR

**Mae angen i flaenoriaethau'r sector dŵr cyfan newid yn llwyr i roi terfyn ar lygredd er mwyn elw a sefydlu system deg a thryloyw**– un sy'n rhoi blaenoriaeth i iechyd y cyhoedd a gwerth am arian cwsmeriaid ac sy'n darparu arfordiroedd, afonydd a llynnoedd iach.



# CARTHION FFIAIDD

Rydyn ni'n byw drwy drychineb iechyd y cyhoedd sy'n gwaethygu. Mae poblogaeth ac amgylchedd naturiol y DU yn agored i gymysgedd a allai fod yn angheuol o ysgarthion dynol a dŵr gwastraff gwenwynig – sy'n llawn o bathogenau a feirysau niweidiol, cemegion, metelau trwm, a microblastigau. Mae'n rhaid i hyn stopio.

Roedd 11.6 miliwn o oedolion wedi cymryd rhan mewn rhyw fath o chwaraeon dŵr awyr agored yn 2023, gan barhau â'r duedd o un flwyddyn ar ôl y llall o weld mwy o bobl yn elwa ar fanteision meddyliol a chorfforol enfawr mynd i ddyfroedd gwyllt y DU.

Y mannau glas hyn yw lle mae pobl yn trochi, yn padlo, yn syrffio ac yn nofio. Maen nhw wedi dod yn galon cymunedau cyfan. Mae pobl yn defnyddio dyfroedd arfordirol, afonydd a llynnoedd i anghofio am eu problemau, i gysylltu â ffrindiau, i wneud ymarfer corff ac i gael teimlad o ryddhad.

**OND MAE LLYGREDD YN Y MANNAU HYN YN GWNEUD POBL YN SÂL.**

### Gwenwyno ein cymunedau

Dros y chwe blynedd diwethaf, rydyn ni wedi bod yn casglu Adroddiadau Salwch drwy ein Gwasanaeth Afonydd a Moroedd Mwy Diogel (SSRS), i ddarganfod pa effaith yn union mae llygredd carthion yn ei chael ar iechyd a lles defnyddwyr dŵr ledled y DU.

**ERS 2020, RYDYN NI WEDI CAEL CYFANSWM O 6,053 O ADRODDIADAU, O DROS 1,000 O LEOLIADAU GWAHANOL, GYDA 1,853 WEDI CAEL EU CYFLWYNO YN 2024 YN UNIG.**

Nid ystadegau yn unig yw'r rhain. Maen nhw'n adrodd hanes miloedd o fywydau pobl sy'n cael eu peryglu'n ddiangen.

> "Mae lleihau llyncu bacteria, firysau a pharasitiaid ymgarthol dynol yn parhau i fod yn **FLAENORIAETH IECHYD CYHOEDDUS.** Er bod elifiant carthion wedi mynd drwy brosesau trin sy'n lleihau'r risg yn sylweddol, mae'n dal yn gallu cynnwys **BACTERIA DYNOL** hyfyw **A FEIRYSAU** sydd â'r potensial i achosi **CLEFYD DIFRIFOL OS CÂNT EU LLYNCU.**"
>
> **CHRIS WHITTY**
> Prif Swyddog Meddygol Lloegr



SYRFFWYR YN ERBYN CARTHION ADRODDIAD ANSAWDD DŴR '25

06

## ARCHWILIAD DWFN I DDATA 2024

**11.6 MILIWN** O BOBL WEDI CYMRYD RHAN MEWN CHWARAEON DŴR YN YR AWYR AGORED YN 2023

**1,853 ADRODDIADAU SALWCH** wedi'u cyflwyno i ni. Ar gyfartaledd, mae hynny yn 5 o bobl yn mynd yn sâl bob dydd am flwyddyn – dim ond y rhai sy'n hysbys i ni.

O'r adroddiadau hyn yn unig, yr oedd yn rhaid i bobl gymryd cyfanswm o **3,425 DIWRNODAU I FFWRDD YN SÂL O'R GWAITH**


**4 DIWRNOD O ABSENOLDEB SALWCH AR GYFARTALEDD**

Ar gyfartaledd, roedd pobl a oedd yn gorfod cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith yn defnyddio 4 diwrnod o absenoldeb salwch.

**331 O BOBL YN GORFOD GWELD MEDDYG**


**79%** ohonyn nhw'n dweud bod eu meddyg **YN PRIODOLI EU SALWCH I LLYGREDD CARTHION**

**£ 493,200** o gynhyrchiant wedi'i golli oherwydd salwch.



# DALIAD Y DYDD

Y salwch mwyaf cyffredin a gludir gan ddŵr yn 2024.




SYRFFWYR YN ERBYN CARTHION ADRODDIAD ANSAWDD DŴR '25

06

ASTUDIAETH ACHOS

# GWNEUD NI'N SÂL:

## YR HYFFORDDWR LLESIANT

ALDWICK, GORLLEWIN SUSSEX



Mae nofio yn y môr yn cynnig amrywiaeth enfawr o fanteision iechyd, o ymarfer cardio o ansawdd uchel i wella'r system imiwnedd. Ond pan fydd ansawdd dŵr yn cael ei esgeuluso'n gywilyddus, mae'n weithgaredd sy'n gallu eich gwneud yn sâl iawn yn hytrach na'ch cadw'n iach.

Dywedodd Suzi Finlayson wrthym sut dechreuodd deimlo'n sâl am y tro cyntaf ym mis Rhagfyr 2023, ond na ddaeth yn amlwg tan 14 Ionawr 2024 pam: roedd ganddi haint yn y gwaed a oedd wedi arwain at lid endocarditis, sef llid ar haen fewnol ei chalon. Dim gwobrau am ddyfalu'r achos sylfaenol.

"Roedd dympio carthion ar Draeth Aldwick yn rhemp, ond doeddwn i ddim yn ymwybodol o'i difrifoldeb ar y pryd," Eglurodd Suzi.

"Pan edrychais ar yr adroddiadau yn ddiweddarach, cefais sioc. Roeddwn i wedi bod yn nofio yn y môr yno tua thair gwaith yr wythnos, drwy gydol y flwyddyn, ers 2019."

Gan edrych yn fanylach ar achos Suzi, gwelsom fod un gorlif carthion o Southern Water ym mis Rhagfyr 2023, i ddyfroedd Aldwick, wedi para 343 awr.

Mae hynny'n golygu bod llygredd carthion amrwd wedi cael ei bwmpio i fan nofio Suzi am 14 diwrnod yn olynol.

## "DEUTHUM YN DDIFRIFOL WAEL A THREULIAIS CHWE WYTHNOS YN YR YSBYTY..."

Deuthum yn ddifrifol wael a threuliais chwe wythnos mewn gofal ysbyty, gan gynnwys gofal dwys, ac yna chwe mis o adferiad o lawdriniaeth agored ar y galon ar gyfer newid falfiau mitrol," meddai Suzi. "Roeddwn i angen ymweliadau wythnosol â'r ysbyty ar gyfer profion gwaed, adsefydlu, ac apwyntiadau dilynol parhaus. O ganlyniad, roedd fy musnes, a oedd yn canolbwyntio ar hyfforddiant bywyd iechyd meddwl a lles gyda chontractau gwerthfawr gyda'r Cyngor a'r GIG, wedi gorfod cau. Rydw i'n gweithio tuag at ailadeiladu ond dydw i ddim yn gallu gweithio yn yr un ffordd ag o'r blaen. Rydw i'n blino'n hawdd ac yn methu ymrwymo i oriau contract mwyach."

Aeth Suzi ymlaen i esbonio sut effeithiodd y salwch nid yn unig ar ei busnes, ond ar bob agwedd ar ei bywyd, gan gynnwys ei chartref a'i theulu. Am chwe mis, doedd hi ddim yn gallu mynd â'i chŵn am dro, gyrru, neu gadw trefn ar ei thŷ. Mae'n annerbyniol bod carthion sy'n cael eu dympio'n anghyfreithlon wedi cael cymaint o effaith niweidiol ar fywyd Suzi. Ac nid hi yw'r unig un. Ledled y wlad, mae pobl bob dydd yn ei chael hi'n anodd ymdopi â chanlyniadau llygredd carthion, yn union fel Suzi. Ac rydyn ni i gyd wedi cael llond bol ohono.

# RYDYN NI'N TALU AM HYN DDWYWAITH

Ar sail cyflog cyfartalog y DU o £37,430[35], roedd yr ergyd economaidd o gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch carthion yn 2024 wedi cyrraedd **£493,200** – gan ystyried dim ond y diwrnodau salwch a gofnodwyd yn ein hadroddiadau.


Ond nid ydym yn gwybod beth yw gwir effaith economaidd llygredd carthion yn y DU o hyd. Gan fod gollyngiadau carthion ar gynnydd, felly hefyd ymweliadau â'r meddyg teulu, biliau meddygol, diwrnodau yn sâl o'r gwaith, a chanslo digwyddiadau cymunedol a chwaraeon.

Efallai mai dyna'r sarhad mwyaf. Mae cymunedau ledled y DU yn talu am hyn. Nid yn ariannol yn unig, ond gyda'n hiechyd hefyd.

**FFIGWR 17:**

**Adroddiadau salwch a'r diwrnodau salwch a gymerwyd ers 2020**

- Cyfanswm yr adroddiadau salwch
- Dyddiau salwch a gymerwyd










ASTUDIAETH ACHOS

## GWNEUD NI'N SÂL: Y PERCHENNOG PARC CARAFANNAU

STAITHES, GOGLEDD SWYDD EFROG



Mae Staithes Chalet and Caravan Park yn safle preifat yn ddwfn yn y ceunant. Yn ystod glaw trwm, mae tri thwll archwilio carthffosydd ar y tir wedi bod yn byrstio ac yn anfon elifiant carthffos heb ei drin i Staithes Beck. Am 12 mlynedd.

Ym mis Awst 2024, cysylltwyd â John Reeve, cynrychiolydd Syrffwyr yn Erbyn Carthion, i helpu perchennog y safle, Kim, oherwydd bod y mater wedi bod para mor hir – gyda dim mwy na chyfres o ymdrechion aneffeithiol ac addewidion gan Yorkshire Water y byddai yn mynd i'r afael â'r mater, yn hytrach na'r materion cymhleth ehangach. Yn ystod yr holl amser hwnnw, nid yw Kim wedi gallu datblygu'r cae gwersylla. Mae gwerth masnachol yr eiddo wedi cwympo, tra bod difrod llifogydd i lan yr afon a mesurau atgyfnerthu pont y safle wedi costio dros £10,000 i Kim mewn gwaith atgyweirio. Dyna lle mae hyn yn datblygu i fod yn stori am y gallu i wneud pethau a gwneud penderfyniadau mewn modd democrataidd. Sefydlodd John a Kim grŵp gweithredu i gwrdd â chynrychiolwyr o Yorkshire Water, Parciau Cenedlaethol y DU a chynghorydd lleol i ddiagnosio a datrys y broblem.

"Rhoddodd Yorkshire Water gynnig ar fân newidiadau a glanhau'r system i ddechrau, ond gwelsom ragor o lifogydd a gwaith atgyweirio annigonol," meddai John. "Mae ymchwiliad mawr ar y gweill ar draws y dalgylch erbyn hyn, oherwydd gyda phob methiant, fe wnaethon ond dweud: 'Dydych chi dal ddim wedi gwneud dim byd' ac atgyfnerthu hynny gyda 'mae dim newid i'r system, yn arwain at ddim newid i'r broblem'."

### "ERBYN HYN, MAE YMCHWILIAD MAWR AR DROED AR DRAWS Y DALGYLCH..."

Diolch i bwysau gan y gymuned leol, yn y pen draw derbyniodd Yorkshire Water feiusrwydd am y difrod i lan yr afon yn lleoliad y bont ac mae bellach wedi ad-dalu Kim am y costau. Ac eto, mae'r problemau yn dal i fod yn amlwg ar y safle.

"Rydyn ni'n monitro ac yn adrodd ar bob methiant, tra bod Yorkshire Water yn llunio ateb parhaol," meddai John. "Rhywbeth maen nhw wedi methu ag ymrwymo i'w ganfod am y degawd diwethaf."

Er ei bod yn anodd dod o hyd i ateb parhaol, mae John yn dweud wrthym fod ei gydweithrediad â sefydliadau sympathetig fel Parciau Cenedlaethol y DU wedi bod yn allweddol wrth weithredu ar lawr gwlad.

Mae hyn yn fwy o dystiolaeth na ddylai penderfyniadau ynghylch rheoli dŵr gael eu gadael i swyddogion gweithredol mewn ystafelloedd bwrdd pell sydd â chyfranddalwyr i'w plesio. Dylid eu gwneud yn ddemocrataidd, gyda'r bobl a'r sefydliadau sydd â buddiant yn y mater yn cael dweud eu dweud yn iawn.

# EFFEITHIAU IECHYD

Yn 2024, cafodd 331 o apwyntiadau â meddygon eu gwneud oherwydd bod pobl wedi mynd yn sâl ar ôl nofio mewn dŵr llygredig yn y DU. Dywedodd 15 o bobl eu bod wedi gorfod mynd i'r ysbyty.

Nid oes gennym y data manwl eto i ganfod faint yn union y mae llygredd carthion yn ei gostio i'r gwasanaeth iechyd, ond rydym yn dechrau gweld tueddiadau cynyddol.

Roedd ffigurau a gyhoeddwyd y llynedd yn dangos bod nifer y derbyniadau i'r ysbyty ar gyfer clefydau sy'n cael eu cludo mewn dŵr yn Lloegr wedi codi 60% rhwng 2010 a 2023[34]. Canfu un astudiaeth fod gan unigolion sy'n cymryd rhan mewn ymdrochi yn y môr **29% yn fwy o debygolrwydd o adrodd am salwch gastroberfeddol**; tra bo ystadegau swyddogol yn dweud wrthym fod clefydau gastroberfeddol yn achosi baich ariannol aruthrol ar y GIG: £1.3 biliwn bob blwyddyn.[36]

**YN GRYNO, MAE LLYGREDD DŴR YN RHOI HYD YN OED MWY O BWYSAU AR SYSTEM GOFAL IECHYD SYDD EISOES YN BRWYDRO I BEIDIO Â MYND DAN Y DON.**



ASTUDIAETH ACHOS

## GWNEUD NI'N SÂL:

### GWEITHIWR IECHYD MEDDWL Y GIG

GODREVY, CERNYW

Dywedodd Miriam Oates, gweithiwr iechyd meddwl gyda GIG Cernyw, wrthym ei bod wedi cael dau bwl o salwch ar ôl mynd i mewn i'r dŵr yn 2024: un ar ôl syrffio ar draeth Great Western yn Newquay, ac un ar ôl nofio ymhellach i lawr yr arfordir yn Godrevy.

Mae Miriam yn ddigon ffodus i gael diwrnodau salwch gyda thâl, felly wnaeth y salwch ddim effeithio arni'n ariannol. Fodd bynnag, cafodd effaith ar ei gwaith.

"Fe gymerais i amser o'r gwaith ar gyfer y ddwy bennod," dywedodd wrthym. "Cefais adolygiad salwch ffurfiol ar ôl hynny. At ei gilydd, cefais chwe diwrnod i ffwrdd o'r gwaith ac roeddwn i'n sâl yn ystod y penwythnos."

**"CAFODD APWYNTIADAU RHAI O FY NGHLEIFION EU CANSLO, A DOEDD HYNNY DDIM YN DEG ARNYN NHW."**





06

ASTUDIAETH ACHOS

## GWNEUD NI'N SÂL:

### YR ATHLETWR

CLEVEDON,
GWLAD YR HAF



Ym mis Medi 2023, aeth Charles i nofio yn y Marine Lake yn Clevedon, lle delfrydol ar gyfer ymarfer nofio dŵr agored a hyfforddi ar gyfer digwyddiad Ironman oedd ar y gweill. Y diwrnod wedyn, syrthiodd, tarodd ei ben ac roedd yn anymwybodol.

Ar ôl cael eu rhuthro i'r ysbyty, datgelodd profion symptomau tebyg i drawiad ar y galon. Dros y pedwar mis nesaf, dangosodd profion pellach fod feirws a ddaliwyd tra'n nofio wedi achosi gostyngiad mewn pwysedd gwaed, gan arwain at drawiad bach ar y galon a niwed i'r pericardiwm, leinin allanol y galon.

"Roedd y diagnosis wedi effeithio'n sylweddol ar fy mywyd," dywedodd Charles wrthym. "Doeddwn i ddim yn gallu codi curiad y galon yn ystod adferiad, gan wneud tasgau bob dydd, fel teithio ar feic, yn heriol. Fy mhrif weithgarwch cymdeithasol yw chwaraeon, a bu'n rhaid ymatal rhag hynny ym fisoedd, gan effeithio ar fy hyder a'm hynysu."

Roedd Charles yn awyddus i bwysleisio ei fod ymhell o fod ar ei ben ei hun yn hyn o beth. Mae effaith dŵr llygredig ar iechyd yn effeithio ar rannau cyfan o gymdeithas.



"Mae llygredd carthion wedi creu argraff o ddiffyg hygyrchedd yn ein cymuned wrth sôn am nofio yn y môr a nofio yn y gwyllt," meddai. "Mae cymunedau arfordirol yn dioddef yn aruthrol – mae eu hased naturiol yn colli ei werth yn gyflym."

**FY MHRIF WEITHGARWCH CYMDEITHASOL YW CHWARAEON, A BU'N RHAID YMATAL RHAG HYNNY AM FISOEDD, GAN EFFEITHIO AR FY HYDER..."**

ASTUDIAETH ACHOS

# GWNEUD NI'N SÂL:

## Y GYMUNED YN TARO'N ÔL

EXMOUTH, DYFNAINT



Wedi cael llond bol ar fynd yn sâl oherwydd gollyngiadau carthion, mae trigolion a busnesau yn Exmouth yn dal eu tir ac yn brwydro dros eu hiechyd a'u hegwyddorion. Yn yr achos cyntaf o'i fath yn y DU, maen nhw'n mynd â South West Water i'r llys am drin y llefydd maen nhw'n mwynhau nofio, syrffio a chwarae fel carthffos.

"Rydyn ni ym mhen draw'r aber, ac mae cannoedd o all-lifoedd carthion yn nalgylch yr Afon Exe," meddai Nicky Nicholls, sy'n cydlynu'r camau cyfreithiol.

"Y llynedd, cafwyd y byrst enfawr hwn, a aeth yn syth i'r dyfroedd ymdrochi ganol mis Awst. Rydym yn dibynnu ar ein twristiaeth. Aeth y baneri coch i fyny ar y traeth."



Mae Nicky'n cofio sut y cerddodd ar hyd glan y môr, gan ganfasio barn y 26 busnes yno. Roedd y dicter yn unfrydol.

"Roedd rhai ohonyn nhw'n crio am golli 30% o'u busnes yr wythnos honno, ac na allen nhw fforddio parhau i fasnachu pe bai hynny'n parhau," meddai. "Mae'r effaith yn enfawr. Ac mae'n treiddio drwy'r gymuned."

Drwy bartneru â'r cwmni cyfreithiol Leigh Day i fynd â South West Water i'r llys[37] am y niwsans cyhoeddus y mae wedi'i achosi, mae'r gymuned yn gobeithio y gallant droi'r llanw, a dangos sut gall pŵer pobl siapio amgylcheddau gwell.

"Fel cymuned, rydyn ni'n cryfhau drwy wneud hyn," meddai Nicky. "Rydyn ni'n mynd i ddod allan ohono gyda thraeth glanach a gwyrddach. A gobeithio y bydd pobl eraill yn gweld bod Exmouth wedi ennill achos ac yn gwneud yr un peth yn eu trefi."

**"RYDYM YN DIBYNNU AR DWRISTIAETH. AETH Y BANERI COCH I FYNY AR Y TRAETH."**



# AFIACH I FYWYD GWYLLT

Mae'r llygredd hwn yn gwneud mwy na niweidio iechyd pobl.

Pan fydd carthion yn halogi ein dyfroedd gwyllt, mae'n **CREU HAFOC MEWN ECOSYSTEMAU CYFAN.** Mae effaith ecolegol carthion amrwd yn ein dŵr yn amrywio o glefyd a gwenwyn mewn anifeiliaid, i broblemau atgenhedlu, halogi'r gadwyn fwyd a dinistrio cynefinoedd.

Yn 2019, dim ond 16% o gyrff dŵr Lloegr – afonydd, camlesi, llynnoedd, aberoedd a dyfroedd arfordirol – oedd â statws da neu uchel. Gall effeithiau carthion ar bob un o'r cyrff dŵr unigol hyn fod yn ddifrifol, gydag **EFFEITHIAU UNIONGYRCHOL A HIRDYMOR**. Ond i wneud pethau'n waeth, mae natur gysylltiedig ein byd yn golygu bod dŵr llygredd carthion yn y DU yn cael effaith ar raddfa fyd-eang.

Canfu adroddiad diweddar fod llygredd carthion yn troi morwellt, sef cynefin morol hanfodol sy'n dirywio'n gyflym, **O FOD YN SINC CARBON GWERTHFAWR I FOD YN FFYNHONNELL BERYGLUS O GARBON.**[38]

Felly, tra bod penaethiaid cwmnïau dŵr a chyfranddalwyr yn brysur yn llenwi eu pocedi, mae ein planed a'n bywyd gwyllt gwerthfawr yn marw o ganlyniad.

**MAE DYFROEDD SY'N CAEL EU LLYGRU GAN GARTHION YN Y DU YN CAEL EFFAITH AR RADDFA FYD-EANG.**



## GWELEDIGAETH NEWYDD: BETH SYDD ANGEN DIGWYDD NESAF?

Rydym yn byw drwy hunllef iechyd y cyhoedd a achosir gan garthffosiaeth. Mae'n bryd cael gweledigaeth newydd sy'n rhoi iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd yn gyntaf ac sy'n rhoi llais i bobl leol o ran sut mae dŵr yn cael ei reoli.

### RYDYN NI'N MYNNU: BLAENORIAETHU CYFREITHIOL

Rhaid i gwmnïau dŵr gael blaenoriaeth gyfreithiol glir i ddiogelu a gwella iechyd y cyhoedd ac iechyd yr amgylchedd. Mae hyn yn golygu y dylen nhw roi blaenoriaeth i unrhyw beth sy'n diogelu iechyd miliynau o ddefnyddwyr dŵr, ble bynnag maen nhw'n nofio, yn syrffio ac yn chwarae.

### GWNEUD PENDERFYNIADAU DEMOCRATAIDD

Dylid rheoli dŵr ar lefel ranbarthol a lleol, gyda mewnbwn gan randdeiliaid lleol gan gynnwys defnyddwyr dŵr, cwsmeriaid, awdurdodau lleol, grwpiau amgylcheddol a pheirianwyr. Yn hollbwysig, rhaid i'r rhanddeiliaid hyn gael pŵer gwirioneddol i wneud penderfyniadau.

**RYDYM YN BYW DRWY HUNLLEF IECHYD Y CYHOEDD A ACHOSIR GAN GARTHFFOSIAETH.**

**MAE'N AMSER RHOI IECHYD Y CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD YN GYNTAF.**

### DŴR WEDI'CH GWNEUD YN SÂL? DYWEDWCH WRTHYM

Rydyn ni'n casglu astudiaethau achos o salwch i greu cronfa o dystiolaeth er mwyn i ni allu dal cwmnïau dŵr a Llywodraeth y DU i gyfrif. Rhowch wybod i ap Gwasanaeth Moroedd ac Afonydd Mwy Diogel (SSRS) am eich salwch.

**CLICIWCH YMA I CAEL YR AP**

# SYLW I GARTHION

## GAIR AM DDYFROEDD YMDROCHI



### Beth yw Dyfroedd Ymdrochi?

Dyfroedd ymdrochi sydd wedi'u dynodi'n swyddogol yw'r mannau ymdrochi mwyaf poblogaidd a dyma'r unig fannau lle mae ansawdd y dŵr yn cael ei fonitro'n rheolaidd gan reoleiddwyr, gyda rhwymedigaethau cyfreithiol ar lygrwyr i lanhau eu gweithredoedd.

### Beth sy'n mynd o'i le?

Eleni, bydd Llywodraeth y DU yn newid y rheolau ar sut mae dynodi a phrofi dŵr ymdrochi yn gweithio. Mae un o'r newidiadau hyn yn creu mwy o rwystrau rhag gwella ansawdd dŵr yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r newid newydd yn nodi y bydd angen "prawf dichonoldeb" ar gyfer dŵr ymdrochi arfaethedig. Gallai'r cam hwn olygu bod safleoedd yr ystyrir eu bod yn rhy llygredig yn cael eu hamddifadu ar unwaith o'r dynodiad hwn, ac felly nad ydynt yn gallu cael y monitro a'r buddsoddiad sydd eu hangen i wneud mannau glas yn lanach ac yn fwy diogel i'r cymunedau sy'n nofio, syrffio, padlo neu'n caiacio yno.

Pe bai'r ddeddfwriaeth hon ar waith yn 2020, byddai 20 o safleoedd ymdrochi swyddogol na fyddai erioed wedi cael statws dŵr ymdrochi gan eu bod wedi cael dosbarthiad 'gwael'.

Mae hyn yn golygu na fyddai gan bobl sy'n defnyddio'r dŵr unrhyw adnoddau i aros yn ddiogel nac i wella ansawdd eu dŵr. Bydd y diwygiadau o fudd uniongyrchol i'r llygrwyr drwy roi ffordd i gwmnïau dŵr ddadlau ei bod yn rhy ddrud rhoi'r gorau i lygru safle y mae pobl yn nofio ynddo.

### Beth sydd angen digwydd nesaf?

Mae angen i Lywodraeth y DU ddileu'r newid arfaethedig hwn ar unwaith. Yn hytrach, mae angen iddo wneud newidiadau sy'n diogelu defnyddwyr dŵr, gan gynnwys:

1. **Profi ansawdd dŵr drwy gydol y flwyddyn.**
2. **Cyfri'r holl ddefnyddwyr dŵr hamdden pan benderfynir a ddylid dynodi safle ymdrochi.**
3. **Profi am lygryddion sy'n dod i'r amlwg.**

**PROTECTINGWILDWATERS.ORG.UK**

**CLICIWCH YMA I DDARLLEN EIN HADRODDIAD EFFAITH CRYCHDONNAU A DYSGU MWY**



# MEDDWL O'R NEWYDD ER MWYN DŴR GLÂN AC IACH

Mae diwydiant dŵr y DU wedi torri. Er gwaethaf cynlluniau a chyfreithiau newydd, a rheoliadau sydd wedi ymddangos dros y blynyddoedd diwethaf, mae problem llygredd yn mynd yn waeth – ac felly hefyd yr argyfwng iechyd cyhoeddus y mae'n ei achosi.

Roedd 592,478 o ollyngiadau wedi'u cadarnhau yn 2024 am gyfanswm o 4,786,038 awr. Os byddwn yn digolledu am y twll du data yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, rydym yn disgwyl i'r ffigur fod yn debycach i 994,499 o ollyngiadau.

Y llynedd yn unig, cafodd SAS **1,853 o adroddiadau salwch.** Maen nhw'n nodi'r hyn sy'n cyfateb i naw mlynedd o ddiwrnodau salwch, gydag ergyd o ran cynhyrchiant i'r economi o £493,200 – dim ond gan y rheini a oedd yn adrodd i ni.

Yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae llywodraethau'n ysgubo'r broblem llygredd dan y carped, ac yn pwyntio bys at bawb arall. Ond mae'r clogyn hwn o gyfrinachedd yn cael ei godi, wrth i bobl ddod yn fwy ymwybodol o'r hyn y mae cwmnïau dŵr yn ei wneud. Yng Nghymru, mae rheoleiddio aneffeithiol a chwmni dŵr anghymwys yn golygu bod carthion wedi cael eu rhyddhau bob dydd yn ystod dau fis cyntaf 2025. Yn Lloegr, mae cwmnïau dŵr yn cael eu gyrru gan yr angen i dalu biliynau o bunnoedd i fuddsoddwyr tymor byr sy'n awchu am elw. Maen nhw wedi methu'n gyson â gwella eu seilwaith, neu hyd yn oed ei gynnal a'i gadw.

### Y CANLYNIAD: ADDEWIDION WEDI'U TORRI, METHU TARGEDAU A NIWED AMGYLCHEDDOL EANG.

Yn 2024, fe wnaeth cwmnïau dŵr yn Lloegr dalu difidendau gwerth £1.2 biliwn – gan ddod â'r cyfanswm terfynol a dalwyd i gyfranddalwyr ers eu preifateiddio i **gyfanswm syfrdanol o £74.2 biliwn**. A hynny i gyd wrth i'n biliau barhau i godi er mwyn talu am y pentwr dyledion sy'n tyfu'n barhaus sy'n cael eu defnyddio i dalu cyfranddalwyr.

### MAE'N LLANAST BUDR SY'N EIN HARWAIN AT GASGLIAD CLIR IAWN: ALLWN NI DDIM YMDDIRIED YN Y CWMNÏAU DŴR. AC ALLWN NI DDIM YMDDIRIED YN Y SYSTEM FEL Y MAE AR HYN O BRYD.

Mae angen diwygio'r diwydiant yn drawsnewidiol, creu newid sy'n dod â llygredd er elw i ben ac yn darparu gwasanaeth teg a thryloyw sy'n blaenoriaethu iechyd y cyhoedd a gwerth am arian i gwsmeriaid, gan sicrhau arfordir , afonydd a llynnoedd iach.








Y newyddion da yw bod gennym gyfle clir i greu newid, diolch i sawl datblygiad cadarnhaol...

### Y Comisiwn Dŵr Annibynnol

Yn 2025, bydd y Comisiwn Dŵr Annibynnol yn edrych ar sut i ddiwygio'r sector dŵr yng Nghymru a Lloegr, gydag argymhellion i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru weithredu arnynt. Gallai hyn fod yn **drobwynt hanesyddol**, gan ddechrau adfer ein harfordir, ein hafonydd a'n llynnoedd er budd pobl a'r blaned.

Ond mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn fod yn uchelgeisiol ac ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael. Nid yw'n gallu plygu i bwysau gan fuddiannau breiniol yn unig.

### Etholiadau datganoledig

Dros y tair blynedd nesaf, bydd pobl yn y gwledydd datganoledig yn mynd i'r gorsafoedd pleidleisio i ethol eu set nesaf o gynrychiolwyr. Yn Etholiad Cyffredinol y DU yn 2024 gwelsom gryfder y teimladau am gyflwr ein dyfrffyrdd a sut roedd hynny wedi chwarae rhan hollbwysig wrth siapio tueddiadau pleidleisio pobl. Bydd yr un peth yn digwydd yma. Mae angen i bob plaid fabwysiadu ein gweledigaeth newydd ar gyfer dŵr yn eu maniffestos, er mwyn sicrhau bod pawb yn y DU yn cael eu gwarchod rhag melltith llygredd carthion.

### Systemau newydd

Mae angen system ddŵr newydd arnom – un sy'n deg ac yn dryloyw, sy'n dod â llygredd er elw i ben, yn blaenoriaethu iechyd y cyhoedd a gwerth am arian cwsmeriaid ac yn darparu arfordir, afonydd a llynnoedd iach.

Rhaid i'r system newydd honno gael ei hadeiladu ar bum egwyddor allweddol gweledigaeth ffres ar gyfer dŵr glân ac iach rydym wedi'u nodi drwy gydol yr adroddiad hwn:



# SYNNU? ARSWYDO? RHWYSTREDIG?

Mae cyflwr diwydiant dŵr y DU yn creu teimlad sy'n sobri rhywun, sy'n sbarduno teimladau dwys ym mhob un ohonom. Yn ffodus, mae ffordd o wneud defnydd da o'r cynddaredd hwnnw a defnyddio eich pŵer a'ch llais i wneud rhywbeth yn ei gylch. Dyma bedair ffordd syml o ddechrau arni...

## DWEUD EICH DWEUD A LLOFNODI EICH ENW

Ymatebwch i'n harolwg a sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed gan y Comisiwn Dŵr: Annibynnol

**CLICIWCH YMA I LOFNODI EICH ENW**

## YMUNWCH Â PADDLE OUT PROTEST '25

17.5.25

Gafaelwch yn eich offer, a mynd i'r dŵr a dangos i'r llygrwyr ein bod wedi cael digon o'u celwyddau.

**CAEL GWYBOD MWY A CHOFRESTRU**






## CAEL YR AP AM DDIM

**CLICIWCH YMA I CAEL YR AP**

Lawrlwythwch ein ap Gwasanaeth Moroedd ac Afonydd Mwy Diogel am ddim i weld yn syth a yw eich dŵr ymdrochi lleol yn cael ei lygru gan garthion. Os ydyw, peidiwch ag aros—anfonwch e-bost at eich AS lleol neu at Brif Swyddog Gweithredol eich cwmni dŵr a mynnwch newid.

## CYFRANNWCH AT Y FRWYDR

DEWCH YN AELOD O SAS A HELPU I SBARDUNO'R YMGYRCH I

**DDOD Â LLYGREDD CARTHION I BEN**

**RHAGOR O WYBODAETH AM FOD YN AELOD O SAS**

# ATODIADAU

## CYFEIRIADAU A THROEDNODIADAU


1 Mae'r graff hwn yn defnyddio'r holl ddata sydd ar gael ar draws y pedair gwlad. Mae lefelau monitro'n amrywio yn ôl gwlad, felly nid oes modd cymharu cyfanswm y ffigurau'n uniongyrchol. Nid yw Dŵr Cymru yn cyhoeddi cyfanswm cryno o'r gollyngiadau; yn hytrach, rydym wedi cynnwys yr holl ddata sydd ar gael o Orlifau Carthffosydd, Gorlifoedd Argyfwng a Gorlifoedd heb Ganiatâd– nid oes gennym ddata cyfatebol ar hyn o bryd ar gyfer Lloegr. Cafodd adrodd 100% ei gyflawni yn Lloegr ar ddiwedd 2023, felly nid oes modd cymharu ffigurau cyn y dyddiad hwnnw yn uniongyrchol â'r gwaith monitro yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon lle nad yw'r ddarpariaeth yn 100%.

2 Mae'r data hwn yn defnyddio rhybuddion rhyddhau amser real gan gwmnïau dŵr. Nid yw wedi cael ei ddilysu na'i brosesu gan ddefnyddio'r un dulliau â ffigurau blynyddol swyddogol. Er enghraifft, mae gollyngiadau cyfnod byr (e.e. digwyddiadau munud o hyd) yn cael eu ddangos yn unigol yma, ac efallai y bydd adroddiadau blynyddol yn grwpio nifer o ollyngiadau byr i un digwyddiad. Mae ystadegau swyddogol yn defnyddio'r dull cyfrif gollyngiadau 12/24, nad ydym yn ei ddefnyddio. Mae hyn yn golygu y bydd ein ffigurau'n dangos nifer uwch o ollyngiadau na'r rheini a adroddir yn flynyddol. Mae'r dull cyfrif 12/24 yn cyfrif y bloc 12 awr cyntaf gyda gollyngiad fel un, a phob bloc 24 awr dilynol gyda gollyngiad fel rhai ychwanegol, nes y bydd bloc 24 awr heb unrhyw ollyngiad yn digwydd.

3 Trosolwg o benderfyniad terfynol PR24 Dŵr Cymru. Ar gael o: www.ofwat.gov.uk/wp-content/uploads/2024/12/Overview-of-Dwr-Cymrus-PR24-Final-Determination.pdf

4 'Rough 12 months' ahead for environment watchdog. Ar gael o: www.bbc.co.uk/news/articles/c789v2lmxyno

5 Mae'r data hwn yn defnyddio gwybodaeth am ollyngiadau amser real gan Dŵr Cymru. Nid yw wedi cael ei ddilysu na'i brosesu gan ddefnyddio'r un dulliau â ffigurau blynyddol swyddogol. Er enghraifft, mae gollyngiadau cyfnod byr (e.e. digwyddiadau munud o hyd) yn cael eu ddangos yn unigol yma, ac efallai y bydd adroddiadau blynyddol yn grwpio nifer o ollyngiadau byr i un digwyddiad. Mae ystadegau swyddogol yn defnyddio'r dull cyfrif gollyngiadau 12/24, nad ydym yn ei ddefnyddio. Mae hyn yn golygu y bydd ein ffigurau'n dangos nifer uwch o ollyngiadau na'r rheini a adroddir yn flynyddol. Mae'r dull cyfrif 12/24 yn cyfrif y bloc 12 awr cyntaf gyda gollyngiad fel un, a phob bloc 24 awr dilynol gyda gollyngiad fel rhai ychwanegol, nes y bydd bloc 24 awr heb unrhyw ollyngiad yn digwydd.

6 Data EDM Northern Ireland Water. Ar gael o: www.niwater.com/storm/event-duration-monitors/

7 Sewage bacteria above legal limits at NI swimming spots. Ar gael o: www.bbc.co.uk/news/articles/cvgrewxxg1zo

8 Lack of wastewater infrastructure holding up thousands of social homes in Northern Ireland. Ar gael o: www.insidehousing.co.uk/home/lack-of-wastewater-infrastructure-holding-up-thousands-of-social-homes-in-northern-ireland-90684

9 The Living with Water Programme (LWWP). Ar gael o: www.niwater.com/major-infrastructure-detail/10034/The-Living-with-Water-Programme-LWWP

10 NI Water shock decision to scrap major sewage projects 'devastating' for Belfast Lough. Ar gael o: www.irishnews.com/news/northern-ireland/ni-water-shock-decision-to-scrap-major-sewage-projects-devastating-for-belfast-lough-BHP6USVXAFFGRFMJQBGCFINRLM

11 Delivering Water 2020: Our final methodology for the 2019 price review. Ar gael o: https://www.ofwat.gov.uk/wp-content/uploads/2017/12/Final-methodology-1.pdf

12 South West Water PR19 final determination, ar gael o: https://www.ofwat.gov.uk/wp-content/uploads/2019/12/PR19-final-determinations-South-West-Water-final-determination.pdf

13 Diffinnir digwyddiadau llygredd fel gollyngiad neu halogydd yn dianc o ased carthffosiaeth cwmni dŵr sy'n effeithio ar yr amgylchedd dŵr, maent yn wahanol i ollyngiadau CSO gan fod yn rhaid eu harsylwi ar y pryd ac yna eu cofnodi.

14 WaterFit. South West Water's plan for healthy rivers and seas. Ar gael o: https://www.southwestwater.co.uk/environment/rivers-and-bathing-waters/waterfit

15 United Utilities PR19 final determination, ar gael o: https://www.ofwat.gov.uk/wp-content/uploads/2019/12/PR19-final-determinations-United-Utilities-Water-final-determination-.pdf

16 United Utilities and Pennon to increase dividend payments as water bills rise. Ar gael o: https://www.theguardian.com/business/2025/jan/29/united-utilities-and-pennon-to-increase-dividend-payments-as-water-bills-rise

17 Severn Trent PR19 final determination, ar gael o: https://www.ofwat.gov.uk/wp-content/uploads/2019/12/PR19-final-determinations-Severn-Trent-Water-final-determination.pdf

18 Severn Trent: Get River Positive. Ar gael o: https://www.stwater.co.uk/get-river-positive/

19 Stream overflow data. Ar gael o: https://www.streamwaterdata.co.uk/pages/storm-overflows-data

20 Overview of companies' final PR19 determinations. Ar gael o: https://www.ofwat.gov.uk/wp-content/uploads/2019/12/PR19-final-determinations-Overview-of-final-determinations.pdf

21 Water and sewerage companies in England: environmental performance report 2023. Ar gael o: https://www.gov.uk/government/publications/water-and-sewerage-companies-in-england-environmental-performance-report-2023

22 Ofwat: Investment in the water industry. Ar gael o: https://www.ofwat.gov.uk/investment-in-the-water-industry/

23 Unison: Clean water – a case for public ownership. Ar gael o: https://www.unison.org.uk/content/uploads/2024/07/385-clean-water-reportJune2024.pdf

24 Cutting sewage spills may be far cheaper than UK ministers predict, say experts. Ar gael o: https://www.theguardian.com/environment/2021/oct/27/cutting-sewage-spills-may-be-far-cheaper-than-uk-ministers-predict-say-experts

25 Thames Tideway Tunnel. Ar gael o: https://www.thameswater.co.uk/about-us/projects/thames-tideway-tunnel

26 Green City Clean Waters. Ar gael o: https://water.phila.gov/green-city

27 Water investors have withdrawn billions, says research. Ar gael o: https://www.bbc.co.uk/news/articles/cw4478wnjdpo

28 Yearwood, Karol (2018) The privatised water Industry in the UK. An ATM for investors. [working paper]. Ar gael o: https://gala.gre.ac.uk/id/eprint/21097/

29 Armitage, Seth (2012) Demand for Dividends: The Case of UK Water Companies. Ar gael o: https://onlinelibrary.wiley.com/doi/epdf/10.1111/j.1468-5957.2011.02277.x

# CYFEIRIADAU A THROEDNODIADAU (PARHAD)


**30** A third of your water bill up the spout! Huge spend on debt – and dividends for fat cat bosses. Ar gael o: https://www.thisismoney.co.uk/money/markets/article-14216539/THIRD-water-bill-goes-spout.html

**31** Water bills to rise by average of 36% over next five years, says water regulator Ofwat. Ar gael o: https://news.sky.com/story/water-bills-to-rise-by-average-of-36-over-next-five-years-says-water-regulator-ofwat-13276002

**32** Breakdown of water companies' bill increases 2025-30. Ar gael o: https://www.ccw.org.uk/our-work/price-review/how-much-will-my-water-and-sewerage-bills-increase-by-2030/breakdown-of-water-companies-bill-increases-2025-30/

**33** Thames Water accused of 'misleading' customers over level of debt payments. Ar gael o: https://www.theguardian.com/business/2024/mar/12/thames-water-customers-debt-payments-bills

**34** Hospital admissions for waterborne diseases in England up 60%, report shows. Ar gael o: https://www.theguardian.com/environment/2024/mar/29/hospital-admissions-for-waterborne-diseases-in-england-up-60-report-shows

**35** Employee earnings in the UK: 2024 Ar gael o: https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/earningsandworkinghours/bulletins/annualsurveyofhoursandearnings/2024#:~:text=Median%20gross%20annual%20earnings%20for,%2C%20an%20increase%20of%206.9%25.

**36** Gold-standard research shapes the NHS' digestive disorder guidelines. Ar gael o: https://www.ucl.ac.uk/healthcare-engineering/case-studies/2018/sep/gold-standard-research-shapes-nhs-digestive-disorder-guidelines

**37** Exmouth sewage pollution claim. Ar gael o: https://www.leighday.co.uk/our-services/group-claims/exmouth-sewage-pollution-claim/

**38** Seagrass vs. Water Quality: How the current crisis is damaging our ability to fight climate change. Ar gael o: https://www.sas.org.uk/updates/seagrass-vs-water-quality-report-launch/









# DATA CYFRANDDALWYR

**Lleoliadau cyfranddalwyr mwyaf cwmnïau dŵr a'r swm a dalwyd iddynt mewn difidendau yn 2024.**

| Cwmni Dŵr | Prif Gyfranddaliwr | Difidendau i'r Prif Gyfranddaliwr 2024 |
|---|---|---|
| Severn Trent | Qatar Investment Authority (Qatar) | Difidend o £36m |
| Thames Water | Ontario Municipal Employees Retirement System (Canada) | Talwyd £0 i'r cyfranddaliwr ond talwyd £195.8m i'r rhiant-gwmnïau |
| United Utilities | Blackrock Investment Management Limited (Efrog Newydd, UAA) | Difidend o £5.67m |
| Northumbrian Water | CK Hutchinson Holdings (Hong Kong) | Difidend o £49.35m |
| Yorkshire Water | GIC Special Investments (Singapore) | Difidend o £28.59m |
| Anglian Water | Canada Pension Plan Investment Board (Canada) | Difidend o £26.29m |
| Wessex Water | YTL (Malaysia) | Difidend o £66.5m |
| South West Water | Lazzard Asset Management LLC (UDA) | Difidend o £4.05m |
| Southern Water | Macquarie Asset Management (Awstralia) | Difidend o £0M |




**SURFERS AGAINST SEWAGE**

Unit 2, Wheal Kitty Workshops, St Agnes, TR5 0RD

E-bost: info@sas.org.uk | Ffôn: 01872 553 001 | www.sas.org.uk

facebook.com/SurfersAgainstSewage instagram.com/SurfersAgainstSewage x.com/sascampaigns

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu 100% gydag inc llysiau er mwyn cael cyn lleied o effaith â phosibl ar yr amgylchedd.

RHIF COFRESTRU'R CWMNI: 02920815 | RHIF COFRESTRU'R ELUSEN: 1145877